Y Weinyddiaeth Gyfiawnder

# Adroddiad ar weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith

Chwefror 2026

HC 1655

# Adroddiad ar weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder yn unol ag adran 3A o Ddeddf Comisiwn y Gyfraith 1965 fel y'i diwygiwyd gan adran 1 o Ddeddf Comisiwn y Gyfraith 2009.

Gorchmynnwyd eu hargraffu gan Dŷ'r Cyffredin, 5 Chwefror 2026.

HC 1655

**© Hawlfraint y Goron 2026**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored fersiwn 3.0, ac eithrio lle nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint berthnasol i'w defnyddio.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at Karen.Finlay@justice.gov.uk.

ISBN 978-1-5286-6180-5

E03526042 02/26

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ffeibr wedi'i ailgylchu.

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** **2**

**Cwmpas yr Adroddiad** **4**

**Argymhellion sydd wedi cael eu rhoi ar waith** **5**

**Argymhellion sydd heb eu rhoi ar waith eto** **7**

(i) Argymhellion sydd yn y broses o gael eu gweithredu 7

(ii) Argymhellion sy’n aros am benderfyniad y Llywodraeth ar weithredu 23

(iii) Rhestr o Brosiectau Diwygio lle mae argymhellion yn aros am benderfyniad y Llywodraeth ar weithredu a lle mae statws y prosiectau wedi aros yr un fath 36

**Penderfyniadau a wnaed i beidio â gweithredu** **37**

# Cyflwyniad

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad cyntaf i'r Senedd ar weithrediad y Llywodraeth o argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Dyma'r degfed adroddiad i gael ei gyflwyno ar ôl pasio Deddf Comisiwn y Gyfraith 2009. Mae'r Ddeddf hon yn rhoi dyletswydd ar yr Arglwydd Ganghellor i adrodd i'r Senedd i ba raddau y mae argymhellion Comisiwn y Gyfraith wedi cael eu rhoi ar waith gan y Llywodraeth. Mae'r ddogfen hon yn ymdrin â statws gweithredu adroddiadau Comisiwn y Gyfraith yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2025 a mis Ionawr 2026, ond mae hefyd yn ymdrin â'r cynnydd o ran gweithredu rhwng mis Ionawr 2026 a'r dyddiad cyhoeddi.

Arweinir y Comisiwn gan bum Comisiynydd, pob un ohonynt yn cael eu penodi gan yr Arglwydd Ganghellor fel y Gweinidog sy'n eu noddi. Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn yn cael ei arwain gan eu Cadeirydd, Syr Peter Fraser, a phedwar Comisiynydd arall sy'n arwain gwaith ar draws eu meysydd arbenigol o'r gyfraith. Rwy'n falch iawn o groesawu'r Comisiynwyr newydd sydd wedi dechrau yn y Comisiwn ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf, yr Athro Solène Rowan (Comisiynydd Cyfraith Fasnachol a Chyffredin); yr Athro Lisa Webley (Comisiynydd Cyfraith Eiddo, Teulu ac Ymddiriedolaeth). Hoffwn ddiolch hefyd i'r Athro Penney Lewis (Comisiynydd Cyfraith Trosedd); a'r Athro Alison Young (Comisiynydd Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru) am eu gwaith a'u gwasanaeth parhaus dros y cyfnod hwn.

Gellir comisiynu prosiectau y mae'r Comisiynwyr yn ymgymryd â hwy fel rhan o'u rhaglenni diwygio neu eu cyflawni drwy atgyfeiriadau unigol gan Weinidogion ar draws y Llywodraeth. Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, mae nifer o brosiectau unigol Comisiwn y Gyfraith naill ai wedi dechrau, neu wrthi'n cael eu rhoi ar waith, p'un a ydynt wedi cael eu comisiynu fel rhan o un o'u rhaglenni diwygio swyddogol neu'n cael eu cyflawni drwy atgyfeiriadau unigol gan Weinidogion ar draws y Llywodraeth. Mae rhai argymhellion sy'n deillio o brosiectau a gynhaliwyd gan Gomisiwn y Gyfraith wedi cael eu rhoi ar waith. Mae'r rhain wedi cynnwys y Bil Cyflafareddu, a gyflwynwyd i'r Senedd gan y Llywodraeth hon ar 18 Gorffennaf 2024, a ddaeth yn Ddeddf ar 24 Chwefror 2025, gan ddod i rym ar 1 Awst 2025. Mae Deddf Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr 2024 yn cynnwys mesurau ar Gynlluniau Arbedion Defnyddwyr a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2026. Yn y Bil Troseddu a Phlismona, a gyflwynwyd i'r Senedd ar 25 Chwefror 2025, mae'r Llywodraeth wedi cyflwyno troseddau newydd sy'n ymwneud â thynnu delweddau personol heb ganiatâd a gosod offer gyda'r bwriad o gyflawni'r troseddau hyn, sy'n seiliedig ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Bob blwyddyn, mae'r Comisiwn yn darparu cofnod cynhwysfawr a manwl o'r cynnydd ym mhob agwedd ar ei waith yn ei adroddiad blynyddol - cyhoeddwyd y diweddaraf ym mis Mai 2025.

Mae'r Comisiwn yn dal i ymgysylltu'n llawn â phrosiectau cyfredol, gan gynnwys y rhai nad ydynt wedi dechrau eto o'r drydedd rhaglen ar ddeg. Yn dilyn yr holl waith a gafodd ei wneud i ddadansoddi a datblygu'r bedwaredd rhaglen ar ddeg o gynigion i ddiwygio'r gyfraith, lansiwyd y bedwaredd rhaglen ar ddeg ar 4 Medi 2025. Mae'r Rhaglen yn cynrychioli corff sylweddol o waith ar gyfer Comisiwn y Gyfraith dros y cyfnod nesaf - gan weithio ar rai meysydd diwygio'r gyfraith sylweddol fel Cydsyniad ym maes cyfraith trosedd, Halogi corff marw, Atebolrwydd dros gynnyrch, gan gynnwys meysydd diwygio'r gyfraith sy'n mynd i'r afael â dau ymrwymiad pwysig ym maniffesto'r Llywodraeth, sef Lesddaliadau Masnachol a Rheoli ystadau tai. Cymeradwyaf Gomisiwn y Gyfraith am ei raglen uchelgeisiol.

Hoffwn ddiolch i'r sefydliad ac i'r Cadeirydd, Syr Peter Fraser, am yr holl waith y mae ef a hwythau wedi'i wneud yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

**Y Gwir Anrhydeddus David Lammy AS**
**Yr Arglwydd Ganghellor, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a'r Dirprwy Brif Weinidog**

# Cwmpas yr Adroddiad

1. Mae Adran 3A o Ddeddf Comisiwn y Gyfraith 1965 yn rhoi dyletswydd ar yr Arglwydd Ganghellor i adrodd i'r Senedd i ba raddau y mae argymhellion Comisiwn y Gyfraith wedi cael eu rhoi ar waith gan y Llywodraeth.

2. Dyma'r degfed adroddiad i gael ei gyhoeddi gan y Llywodraeth. Yn ôl yr angen, mae'r adroddiad yn ymdrin ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith sydd wedi cael eu rhoi ar waith; argymhellion nad ydynt wedi cael eu rhoi ar waith eto, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer gweithredu; a phenderfyniadau a wnaed i beidio â rhoi argymhellion ar waith. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 12 Ionawr 2025 ac 11 Ionawr 2026, ond mae hefyd wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r cynnydd o ran gweithredu rhwng mis Ionawr 2026 a'r dyddiad cyhoeddi.

3. Mae cwmpas yr Adroddiad yn ymwneud â Chomisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae'r adroddiad yn nodi lle mae prosiectau wedi cael eu cynnal ar y cyd â Chomisiwn y Gyfraith yn yr Alban. Mae'r adroddiad yn ymdrin yn bennaf ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith y dylai Llywodraeth EF eu rhoi ar waith. Cynhyrchir adroddiad ar wahân ar gyfer yr argymhellion hynny y mae angen i Lywodraeth Cymru eu rhoi ar waith, felly nid yw'r rhain wedi'u nodi yn yr adroddiad hwn.

# Argymhellion sydd wedi cael eu rhoi ar waith

### Cyflafareddu[1]

4. Ym mis Mawrth 2021, gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Gomisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr gynnal adolygiad o Ddeddf Cyflafareddu 1996. Cafodd Comisiwn y Gyfraith y dasg o benderfynu a oedd angen unrhyw ddiwygiadau i'r Ddeddf i sicrhau ei bod yn dal yn addas i'r diben ac yn parhau i hyrwyddo Cymru a Lloegr fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer cyflafareddu masnachol. Cynhaliodd Comisiwn y Gyfraith ddau ymgynghoriad a chyhoeddodd ei adroddiad terfynol ym mis Medi 2023.

5. Cyflwynodd y Llywodraeth hon y Bil Cyflafareddu ar 18 Gorffennaf 2024 i roi'r diwygiadau a nodir yn yr adroddiad hwn ar waith. Mae'r rhain wedi cynnwys egluro'r gyfraith sy'n berthnasol i gytundebau cyflafareddu, codeiddio dyletswydd datgelu ar gyfer cyflafareddwyr, cryfhau imiwnedd cyflafareddwyr rhag atebolrwydd am ymddiswyddiadau a cheisiadau i ddiswyddo, grymuso cyflafareddwyr i wneud dyfarniadau ar sail crynodeb ar faterion nad oes ganddynt obaith gwirioneddol o lwyddo, a grymuso cyflafareddwyr brys i gyhoeddi gorchmynion terfynol a gwneud ceisiadau perthnasol am orchmynion llys. Roedd ymdrechion blaenorol i basio Bil Cyflafareddu i roi'r argymhellion hyn ar waith yn aflwyddiannus ar ddiwedd y sesiwn Seneddol ym mis Gorffennaf 2024. Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 24 Chwefror 2025.

6. Dechreuodd Deddf Cyflafareddu 2025 ar 1 Awst 2025. Mae'n berthnasol i bob achos cyflafareddu a gychwynnir o'r dyddiad hwn ymlaen ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

### Rhagdaliadau Defnyddwyr ar Ansolfedd Manwerthwyr[2]

7. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar y prosiect hwn ym mis Gorffennaf 2016, a oedd yn ystyried a oes angen mwy o ddiogelwch i ddefnyddwyr sy'n colli blaendaliadau neu dalebau rhodd pan fydd manwerthwyr neu ddarparwyr gwasanaeth eraill yn mynd yn fethdalwyr.

8. Pan aiff manwerthwr yn fethdalwr, mae'r gyfraith yn gosod hierarchaeth gaeth o gredydwyr i'w talu o unrhyw asedau sy'n weddill. Mae defnyddwyr, sy'n cael eu hystyried yn gredydwyr ansicredig, yn agos iawn at waelod y rhestr ac yn aml yn cael

1 Cyflafareddu (LC 413) (05.09.23)

2 Rhagdaliadau Defnyddwyr ar Ansolfedd Manwerthwyr (LC368) (14.07.2016)

dim byd. Mewn rhai achosion, efallai y bydd y gweinyddwr yn penderfynu anrhydeddu rhagdaliadau a thalebau rhodd i ddefnyddwyr, er nad oes rheidrwydd arno i wneud hynny. Yn aml, nid yw defnyddwyr yn ymwybodol o'r sefyllfa gyfreithiol, ac mewn rhai achosion, mae gwybodaeth anghyson gan weinyddwyr yn drysu'r sefyllfa ymhellach.

9. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth flaenorol i'w hadroddiad ar 27 Rhagfyr 2018, gan dderbyn nifer o argymhellion, gan gynnwys y canlynol:
   - Rheoleiddio cynlluniau Nadolig a chynlluniau cynilo tebyg, sy'n peri risg benodol i ddefnyddwyr agored i niwed.
   - Gwneud newidiadau i'r rheolau ynghylch pryd mae defnyddwyr yn caffael perchnogaeth nwyddau (gweler isod).

10. Gweithredwyd argymhelliad pellach o roi rhagor o wybodaeth i ddefnyddwyr am gael ad-daliad drwy ddarparwr eu cerdyn debyd neu gredyd drwy gyngor i ymarferwyr ansolfedd yn ystod haf 2017; ac ystyriwyd un arall ar newidiadau i hierarchaeth ansolfedd ond ni fydd yn mynd rhagddo.

11. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr (DMCC) ym mis Ebrill 2023, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mai 2024. Mae'r Ddeddf yn cynnwys mesurau ar Gynlluniau Cynilo Defnyddwyr a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2026. Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod y rheini sydd o fewn y cwmpas yn diogelu arian defnyddwyr drwy yswiriant neu drefniadau ymddiriedolaeth, ac mae canllawiau ar gydymffurfio wedi bod yn destun ymgysylltu â'r diwydiant.

12. Yn adroddiad 2016, gwnaeth y Comisiwn argymhellion hefyd ar gyfer diwygio'r rheolau trosglwyddo perchnogaeth fel y maent yn berthnasol i ddefnyddwyr. Gofynnodd yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) ar y pryd i'r Comisiwn wneud rhagor o waith ar y mater hwn, llunio deddfwriaeth ac ystyried ei heffaith bosibl. Cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad pellach a bil drafft ym mis Ebrill 2021.[3] Penderfynodd y Llywodraeth flaenorol beidio â gwneud newidiadau i'r rheolau ynghylch pryd mae defnyddwyr yn caffael perchnogaeth nwyddau pan ddaeth yn amlwg y byddai angen newid radical i arferion prosesu ar-lein er mwyn gwneud y newidiadau arfaethedig i'r rheolau yn hyfyw.

[3] Contractau gwerthu defnyddwyr: trosglwyddo perchnogaeth (LC398) (23.04.2021)

# Argymhellion sydd heb eu rhoi ar waith eto

## (i) Argymhellion sydd yn y broses o gael eu gweithredu

**Diweddaru Deddf Cofrestru Tir 2002**[4]

13. Yn 2018, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei ganfyddiadau ar yr adolygiad o Ddeddf Cofrestru Tir 2002. Argymhellodd yr adroddiad rai diwygiadau technegol i fynd i'r afael â materion yn y gyfraith, i wella arferion atal twyll, ac i hwyluso, symleiddio a lleihau costau trosglwyddo i bawb.

14. Ymatebodd y Llywodraeth flaenorol mewn ffordd gadarnhaol i'r adolygiad, gan gynnig ymateb llawn i'r 53 o argymhellion ar 25 Mawrth 2021. Nododd y Llywodraeth flaenorol fod y rhan fwyaf o'r argymhellion yn dechnegol neu'n benodol, gyda thri yn effeithio ar awdurdodaeth Tribiwnlys yr Haen Gyntaf, sy'n dyfarnu ar anghydfodau sy'n ymwneud â materion cofrestru tir. Yn gyffredinol, roedd y Llywodraeth flaenorol o'r farn bod y system cofrestru tir yn effeithiol. Derbyniodd 40 o argymhellion, gan nodi y gallai fod angen addasiadau i nifer fach cyn gweithredu, a gwrthododd dri argymhelliad, gan nodi pryderon am newidiadau sylweddol i'r system cofrestru tir effeithiol, heb fanteision clir na chanlyniadau anfwriadol posibl. Roedd angen ystyried 10 argymhelliad ymhellach ac roedd ymateb y Llywodraeth flaenorol yn darparu mewnwelediad ar bob un.

15. Uchelgais Cofrestrfa Tir EF (HMLR), fel y nodir yn ei Strategaeth 2025+, yw gwneud ei gwasanaethau'n hawdd i bawb a diogelu hawliau eiddo'n well, ar yr un pryd â chefnogi'r farchnad eiddo drwy ei ddata. Mae trawsnewid digidol parhaus HMLR yn gwella ei gallu digidol i wella profiadau cwsmeriaid a gwneud cofrestru tir yn fwy diogel ac effeithlon. Mae HMLR yn ystyried cyfleoedd i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith, ac mae'n edrych ar opsiynau deddfwriaethol fel rhan o'i huchelgeisiau strategol.

**Ffioedd digwyddiad mewn eiddo ymddeol (Ffioedd Trosglwyddo Teitlau a Newid Deiliadaeth mewn Lesddaliadau)**[5]

16. Yn dilyn ymchwiliad gan y Swyddfa Masnachu Teg yn 2013, a ganfu y gallai ffioedd trosglwyddo, neu ffioedd digwyddiad a godir mewn prydlesi eiddo ymddeol fod yn

[4] Diweddaru Deddf Cofrestru Tir 2002 (LC380) (24.07.18)

[5] Ffioedd Digwyddiad mewn Eiddo Ymddeol (LC373) (31.03.17)

annheg, gofynnodd y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) i Gomisiwn y Gyfraith ymchwilio a gwneud argymhellion ar gyfer newid.

17. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar 31 Mawrth 2017, a oedd yn argymell y dylid rheoleiddio ffioedd digwyddiad drwy gyflwyno cod ymarfer newydd a gymeradwywyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol ar y pryd; ac y dylai'r cod ymarfer gael ei ategu gan ddiwygiad i Ddeddf Hawliau Defnyddwyr 2015 er mwyn i ddefnyddwyr allu ei orfodi. Os torrir y cod ymarfer, argymhellodd y Comisiwn na ddylai ffi'r digwyddiad fod yn daladwy yn y rhan fwyaf o achosion.

18. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ymateb interim ym mis Tachwedd 2017, yn diolch i'r Comisiwn am yr adroddiad.

19. Ym mis Mawrth 2019, ymatebodd y Llywodraeth flaenorol i Gomisiwn y Gyfraith, gan gytuno i weithredu'r rhan fwyaf o'i argymhellion, ac i roi ystyriaeth bellach i argymhellion ar hawliau olyniaeth a chronfa ddata o eiddo ymddeol ar lesddaliad gyda ffioedd digwyddiadau.

20. Mae'r Llywodraeth hon yn ystyried yn ofalus yr argymhellion yn adroddiad terfynol y Tasglu Tai Pobl Hŷn, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2024, gan gynnwys ei argymhelliad y dylai'r Llywodraeth weithredu argymhellion 2017 Comisiwn y Gyfraith i reoleiddio ffioedd digwyddiad. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i wella'r ddarpariaeth a'r dewis i bobl hŷn yn y farchnad dai.

### Cyfunddaliad a Lesddaliad Preswyl[6]

21. Yn 2020, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith gyfres o bedwar adroddiad ar Lesddaliadau a Chyfunddaliadau Preswyl, sydd gyda'i gilydd yn ceisio diwygio'r cyfundrefnau rhyddfreinio, hawl i reoli a chyfunddaliadau yn gyfan gwbl. Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddwyd y cyntaf o'r pedwar adroddiad, a oedd yn cynnwys argymhellion ar agweddau prisio rhyddfreinio, ac ar 21 Gorffennaf 2020 cyhoeddwyd tri adroddiad arall, ar yr agweddau sy'n weddill ar ryddfreinio, yn ogystal â chyfunddaliadau a'r hawl i reoli. Mae'r adroddiadau'n cynnwys nifer fawr o argymhellion.

---

6 Perchnogaeth tai lesddaliadol: prynu eich rhydd-ddaliad neu ymestyn eich prydles - Adroddiad ar opsiynau i ostwng y pris sy'n daladwy (LC387) (9.1.2020); Perchnogaeth tai lesddaliadol: prynu eich rhydd-ddaliad neu ymestyn eich prydles - Adroddiad Terfynol (LC392) (27.7.2020); Perchnogaeth tai lesddaliadol: arfer yr hawl i reoli (LC393) (21.7.2020); Adfywio cyfunddaliadau: y dewis amgen i berchnogaeth lesddaliadol (LC394) (21.07.2020)

22. Ymatebodd y Llywodraeth flaenorol i nifer o argymhellion y Comisiwn ar ryddfreinio a'r hawl i reoli.[7] Rhoddwyd argymhellion allweddol Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â'r meysydd hynny ar waith yn Neddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Rhydd-ddaliad 2024.

23. Roedd Araith y Brenin ym mis Gorffennaf 2024 yn egluro y bydd y Llywodraeth hon yn diwygio'r system lesddaliadau ymhellach drwy weithredu gweddill argymhellion Comisiwn y Gyfraith sy'n ymwneud â rhyddfreinio lesddaliadau a'r hawl i reoli. Bydd hefyd yn cymryd camau i ddod â'r system lesddaliadau i ben, gan adfywio cyfunddaliadau drwy fframwaith cyfreithiol cynhwysfawr newydd a gwahardd gwerthu fflatiau lesddaliadol newydd fel mai cyfunddaliad fydd y ddeiliadaeth ddiofyn. Ymrwymodd y Llywodraeth i gyhoeddi Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad a Chyfunddaliad drafft newydd uchelgeisiol yn y sesiwn seneddol hon.

24. Fel cam cyntaf, ar 3 Mawrth 2025, cyhoeddodd y Llywodraeth hon y Papur Gwyn Cyfunddaliad[8] lle ymrwymodd i gyflwyno fframwaith cyfreithiol newydd cynhwysfawr yn seiliedig ar y mwyafrif helaeth o'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad, *Reinvigorating Commonhold: the alternative to leasehold ownership*.

### Symleiddio'r Rheolau Mewnfudo[9]

25. Cyhoeddwyd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Symleiddio'r Rheolau Mewnfudo ddechrau 2020. Roedd yn cynnwys argymhelliad y dylai'r Swyddfa Gartref ddiwygio'r Rheolau Mewnfudo a'u hailddrafftio ar sail yr egwyddorion canlynol: (1) addasrwydd ar gyfer y defnyddiwr anarbenigol; (2) cynwysfawredd; (3) cywirdeb; (4) eglurder a hygyrchedd; (5) cysondeb; (6) cadernid (strwythur gwydn sy'n hwyluso diwygiadau); a (7) chapasiti i gyflwyno ar ffurf ddigidol. Cafwyd cyfanswm o 41 o argymhellion manwl ar ddrafftio a strwythur, a phrosesau i sicrhau gwydnwch.

26. Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ei hymateb ym mis Mawrth 2020. Roedd yr ymateb yn croesawu adroddiad Comisiwn y Gyfraith ac yn derbyn pob un o 41 o argymhellion Comisiwn y Gyfraith, yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Yn unol â'r argymhellion, mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu Pwyllgor Adolygu Symleiddio'r Rheolau i edrych ar ddrafftio a strwythur y rheolau. Oherwydd nifer a chymhlethdod y rheolau, sydd wedi esblygu'n ailadroddol dros amser, penderfynwyd symleiddio fesul cam.

27. Yn hydref 2020, gosodwyd y gyfres gyntaf o reolau symlach. Mae'r rheolau symlach yn dilyn strwythur cyson, ac maent yn cael eu drafftio mewn Saesneg clir, yn unol â'r

[7] https://www.gov.uk/government/news/government-reforms-make-it-easier-and-cheaper-for-leaseholders-to-buy-their-homes and https://www.gov.uk/government/publications/leasehold-valuation-enfranchisement-and-the-right-to-manage

[8] Papur Gwyn Cyfunddaliad, Papur Gwyn Cyfunddaliad - GOV.UK

[9] Symleiddio'r Rheolau Mewnfudo (LC388) (13.01.2020)

egwyddorion a nodir gan Gomisiwn y Gyfraith. Maent hefyd yn dechrau cydgrynhoi rheolau trawsbynciol (er enghraifft y rhai ar brawf o allu ieithyddol a phrawf o gyllid), er mwyn sicrhau mwy o gysondeb. Ers hynny, mae rhagor o lwybrau a rheolau trawsbynciol wedi cael eu rhoi ar waith ac mae llwybrau newydd wedi cael eu cyflwyno gan ddefnyddio'r dull symlach. Hyd yma, mae tua 60 o lwybrau wedi cael eu symleiddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol. Mae'r rheolau symlach hyn yn gam sylweddol tuag at wireddu ymrwymiad y Swyddfa Gartref i weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith, gan roi mwy o eglurder i ymgeiswyr, gweithwyr achos a phawb arall sy'n defnyddio'r rheolau. Ar ben hynny, mae'r rheolau symlach yn galluogi newid ehangach i sicrhau bod y systemau a'r prosesau'n symlach. Bydd y Rheolau Mewnfudo yn cael eu cydgrynhoi unwaith y bydd y llwybrau sy'n weddill wedi'u symleiddio.

**Rheoleiddio Gweithwyr Gofal Iechyd a Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Proffesiynol**[10]

28. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol (gyda Bil drafft) ar 2 Ebrill 2014 ynghylch rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac, yn Lloegr yn unig, rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol. Roedd hwn yn brosiect ar y cyd â Chomisiwn y Gyfraith yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'r adroddiad yn nodi argymhellion ar gyfer un fframwaith cyfreithiol newydd ar gyfer rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, a'i nod yw cyflwyno fframwaith cyfreithiol cyson a fydd yn galluogi'r rheoleiddwyr yn well i gynnal eu dyletswydd i ddiogelu'r cyhoedd, er enghraifft, cynnal gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer.

29. Mae argymhellion y Comisiwn yn rhagweld gwelliannau ar draws y maes rheoleiddio proffesiynol, gan gynnwys strwythurau llywodraethu cadarn ar gyfer cyrff rheoleiddio, gan alluogi arloesedd mewn addysg a phrosesau mwy darbodus sy'n galluogi'r cyrff rheoleiddio i gymryd camau cyflymach i sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu diogelu.

30. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ei hymateb ar 29 Ionawr 2015, gan nodi'r angen am ragor o waith ar fireinio argymhellion Comisiwn y Gyfraith i gyflawni blaenoriaethau rheoleiddio, ymreolaeth a chost-effeithiolrwydd gwell, ar yr un pryd â chynnal ffocws clir ar ddiogelu'r cyhoedd.

31. Cynhaliodd y Llywodraeth flaenorol ddau ymgynghoriad mewn ymateb i adroddiad Comisiwn y Gyfraith dros y blynyddoedd 2017-2023. Daeth y ddeddfwriaeth a ddeilliodd o hyn, Gorchymyn Cymdeithion Anaesthesia a Chymdeithion Meddygol 2024, i rym ym mis Mawrth 2024, ac mae'n rhoi pwerau i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) i gynnwys cymdeithion anaesthesia a chymdeithion meddygol mewn rheoliadau statudol o dan fframwaith rheoleiddio wedi'i foderneiddio o fis

[10] Rheoleiddio Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol: Rheoleiddio Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Proffesiynol yn Lloegr (LC 345) (02.04.2014)

Rhagfyr 2024 ymlaen. Fe'i cynlluniwyd i fod yn dempled ar gyfer diwygiadau yn y dyfodol y gellid eu cyflwyno i bob rheoleiddiwr gofal iechyd proffesiynol.

32. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo o hyd i foderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y DU. Mae'n bwriadu ymgynghori ar is-ddeddfwriaeth i foderneiddio fframwaith rheoleiddio'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn gynnar yn 2026, a chyflwyno deddfwriaeth ar gyfer y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn ystod y cyfnod Seneddol presennol.

### Gorfodi Gorchmynion Ariannol Teulu[11]

33. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar orfodi gorchmynion ariannol teulu ym mis Rhagfyr 2016, yn dilyn pryderon a godwyd gan ymarferwyr bod y llwybrau a'r gweithdrefnau cyfreithiol ar gyfer gorfodi talu gorchmynion ariannol a wnaed gan y llys teulu yn ddiangen o gymhleth.

34. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith amrywiaeth o ddiwygiadau a gynlluniwyd i wneud gorfodi gorchmynion ariannol teulu yn fwy effeithiol, yn fwy hygyrch ac yn decach. Argymhellodd Comisiwn y Gyfraith newidiadau gweithdrefnol a diwygiadau statudol. Roedd yr argymhellion yn cynnwys cydgrynhoi'r holl reolau gweithdrefnol sy'n ymwneud â gorfodi gorchmynion ariannol teulu, yn ogystal â chyflwyno pwerau newydd i'r llys ddileu, am hyd at 12 mis, drwyddedau gyrru a phasbortau dyledwyr sy'n gallu talu ond sy'n dewis peidio â gwneud hynny.

35. Yn dilyn ymateb terfynol y Llywodraeth flaenorol ar 23 Gorffennaf 2018, roedd yn cynnig bwrw ymlaen â'r argymhellion hynny sy'n gofyn am newidiadau i reolau gweithdrefnol a newidiadau gweithredol yn hytrach na newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol, cyn dod i farn derfynol ynghylch a ddylai fwrw ymlaen â'r argymhellion hynny y mae angen eu diwygio'n statudol.

36. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r Rheolau Trefniadaeth Teulu sy'n ymdrin â gorfodi gorchmynion ariannol teulu, yn unol â'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad, gan y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu ym mis Gorffennaf a mis Awst 2020. Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, bu'r Llywodraeth yn gweithio gyda Gweithgor Gorfodi Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu i ystyried newidiadau i reolau gweithdrefnau sy'n ymdrin â gorfodi gorchmynion ariannol. Ym mis Tachwedd 2022, cymeradwyodd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu ddiwygiad i Reol Trefniadaeth Teulu 33.3(3), fel y bydd gofyn i ymatebwyr i geisiadau gorfodi cyffredinol ddarparu datganiad ariannol i'r llys yn nodi eu sefyllfa ariannol o leiaf 7 diwrnod cyn y gwrandawiad cyntaf yng nghais gorfodi'r ymgeisydd. Cafodd y newid hwn i'r rheol ei roi ar waith ar 6 Ebrill 2023.

[11] Gorfodi Gorchmynion Ariannol Teulu (LC370) (14 12.2016)

37. Adolygodd y Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Teulu weithrediad y newid hwn i'r rheol ym mis Ebrill 2024. Roedd o'r farn bod Rheol Trefniadaeth Teulu 33.3(3) yn gweithio'n dda ac y dylai barhau heb newid.

38. Ers hynny, mae Comisiwn y Gyfraith wedi cyhoeddi ei adroddiad cwmpasu ar gyfraith hawliau rhwymedïau ariannol ar ysgariad ym mis Rhagfyr 2024. Daeth Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad bod angen diwygio'r gyfraith bresennol o rwymedïau ariannol, er mai mater i'r Llywodraeth benderfynu arno yw ffurf y diwygiadau. Ar 10 Tachwedd, cyhoeddodd y Farwnes Levitt y bydd y Llywodraeth yn ymgynghori ar faterion a godwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, fel rhan o'i ymgynghoriad arfaethedig ar ddiwygio'r maes cyd-fyw a chyfraith rhwymedïau ariannol ar ysgariad.

39. Er bod y Llywodraeth yn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â'i hymgynghoriad ar gyd-fyw a rhwymedïau ariannol ehangach, bydd yn ystyried a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i orfodaeth yn y dyfodol.

### Cymryd, Gwneud a Rhannu Delweddau Personol heb Ganiatâd[12]

40. Cyhoeddodd y Comisiwn ei adroddiad terfynol, "Camddefnyddio Delweddau Personol", ym mis Gorffennaf 2022. Roedd yr adroddiad yn argymell diddymu troseddau presennol sy'n mynd i'r afael â chamddefnyddio delweddau personol, a'u disodli â phecyn cydlynol o droseddau sy'n ymwneud â thynnu a rhannu delweddau personol heb ganiatâd, a fyddai'n gwneud y gyfraith trosedd yn fwy cyson ac yn ei hehangu i ddiogelu dioddefwyr ymhellach.

41. Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ei bwriad i greu llu o droseddau newydd i ymdrin â chamddefnyddio delweddau personol ar sail argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Diddymodd Deddf Diogelwch Ar-lein 2023 y troseddau o ddatgelu neu fygwth datgelu delweddau rhywiol preifat a'u disodli â phedair trosedd newydd o rannu neu fygwth rhannu delweddau personol.

42. Mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i fynd i'r afael â phob math o drais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys cam-drin ar sail delweddau. Yn y Bil Troseddau a Phlismona, rydym wedi cyflwyno troseddau newydd sy'n ymwneud â thynnu delweddau personol heb ganiatâd a gosod offer gyda'r bwriad o gyflawni'r troseddau hyn.

### Cerbydau Awtomataidd[13]

43. Ym mis Mawrth 2018, gofynnodd Canolfan Cerbydau Cysylltiedig ac Awtonomaidd (CCAV) y Llywodraeth i Gomisiwn y Gyfraith gynnal adolygiad pellgyrhaeddol o fframwaith rheoleiddio'r DU ar gyfer cerbydau awtomataidd ar y ffyrdd, gan adeiladu

[12] Camddefnyddio Delweddau Personol (LC407) (06.07.22)

[13] Cerbydau Awtomataidd: Adroddiad ar y Cyd Comisiwn y Gyfraith Rhif 404

ar waith CCAV a'r diwygiadau i'r gyfraith yswiriant yn Neddf Cerbydau Awtomataidd a Thrydan 2018. Nod y prosiect oedd hybu hyder yn y cyfreithiau sy'n ymwneud â defnyddio cerbydau awtomataidd yn ddiogel, ac yn y DU fel lleoliad bywiog, blaenllaw ar gyfer y diwydiant cerbydau cysylltiedig ac awtomataidd. Ar y cyd â Chomisiwn y Gyfraith yn yr Alban, cyhoeddwyd tri phapur ymgynghori yn 2019, 2020 a 2021. Nododd y rhain broblemau dybryd yn y gyfraith a allai fod yn rhwystrau i ddefnyddio cerbydau awtomataidd, o ddeddfwriaeth traffig ffyrdd sy'n canolbwyntio ar "y gyrrwr", safonau cerbydau, troseddau a thrafnidiaeth gyhoeddus. Drwy gydol y prosiect, roedd diogelwch wrth galon cynigion Comisiwn y Gyfraith, a oedd hefyd yn ceisio cadw'r hyblygrwydd sydd ei angen i ddarparu ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

44. Cyhoeddwyd adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar 26 Ionawr 2022. Mae ei argymhellion yn ymwneud â chymeradwyo ac awdurdodi cerbydau hunan-yrru i gychwyn, monitro eu perfformiad yn barhaus tra byddant ar y ffordd, marchnata camarweiniol, ac atebolrwydd troseddol a sifil. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno'r prawf ar gyfer hunan-yrru i'r gyfraith; proses gymeradwyo ac awdurdodi dau gam sy'n adeiladu ar gynlluniau rhyngwladol a domestig cyfredol; cynllun sicrhau diogelwch newydd; rolau cyfreithiol newydd i ddefnyddwyr, gwneuthurwyr a gweithredwyr gwasanaethau; a throseddau sy'n dal gwneuthurwyr a gweithredwyr gwasanaethau yn gyfrifol am gamliwio neu beidio-â datgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i ddiogelwch.

45. Ymatebodd y Llywodraeth flaenorol yn ffurfiol i'r adroddiad ym mhapur Symudedd Cysylltiedig ac Awtomataidd[14] (CAM) 2025, gan gyflwyno papur gorchymyn i'r Senedd ym mis Awst 2022. Cytunodd y Llywodraeth flaenorol â'r rhan fwyaf o argymhellion y Comisiwn ac, ym mis Tachwedd 2023, cyflwynodd ddeddfwriaeth sylfaenol yn y Senedd i weithredu'r argymhellion a chreu fframwaith rheoleiddio penodol er mwyn sicrhau diogelwch cerbydau hunan-yrru a gosod cyfrifoldebau clir dros eu defnyddio a'u perfformiad.

46. Cafodd y ddeddfwriaeth sylfaenol Gydsyniad Brenhinol ym mis Mai 2024 fel y Ddeddf Cerbydau Awtomataidd. Mae'r Ddeddf Cerbydau Awtomataidd (AV) yn darparu un o'r fframweithiau cyfreithiol mwyaf cynhwysfawr o'i fath yn unrhyw le yn y byd ar gyfer cerbydau hunan-yrru, gyda diogelwch wrth ei wraidd. Mae'n nodi cyfrifoldebau cyfreithiol clir, yn sefydlu fframwaith diogelwch ac yn creu'r pwerau angenrheidiol i reoleiddio'r diwydiant newydd hwn.

47. Ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol i'r Ddeddf AV ym mis Mai 2024, lansiodd Canolfan Cerbydau Cysylltiedig ac Awtonomaidd (CCAV) y Llywodraeth raglen weithredu ar gyfer y Ddeddf. Y bwriad yw gorffen gweithredu'r Ddeddf yn ail hanner 2027.

---

[14] https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1099178/cam-2025-realising-benefits-self-driving-vehicles-print.pdf

48. Mae Rhaglen Weithredu'r Ddeddf AV wedi'i chynllunio i flaenoriaethu'r gwaith o ddatblygu fframwaith rheoleiddio sy'n manteisio i'r eithaf ar arloesi, yn gwella diogelwch ac yn cryfhau hyder y cyhoedd.

49. Mae Rhaglen Weithredu'r Ddeddf AV yn cynnwys cyfres o ymgynghoriadau i alluogi is-ddeddfwriaeth ar draws 2026-2027. Yn 2025, lansiodd CCAV dri ymgynghoriad, gan gynnwys Cais am Dystiolaeth ar y Datganiad o Egwyddorion Diogelwch, ac ymgynghoriadau ar ddiogelu telerau marchnata ar gyfer cerbydau awtomataidd a'r cynllun trwyddedu Gwasanaethau Teithwyr Awtomataidd (APS). Y bwriad yw lansio cais arall am dystiolaeth ar ddatblygu'r fframwaith rheoleiddio AV cyn diwedd 2025.

50. Yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, bydd 2026 yn gweld rhagor o ymgynghoriadau ar y Datganiad Egwyddorion Diogelwch a'r fframwaith rheoleiddio AV, ochr yn ochr â gosod offerynnau statudol ar ddiogelu telerau marchnata ac APS. Mae CCAV yn bwriadu gweithredu gweddill y fframwaith rheoleiddio, gan gynnwys y Datganiad o Egwyddorion Diogelwch, yn 2027.

**Atafaelu Enillion Troseddu**[15]

51. Yn 2018, comisiynodd y Swyddfa Gartref Gomisiwn y Gyfraith i adolygu Rhan 2 o Ddeddf Enillion Troseddu 2002 (y drefn atafaelu yng Nghymru a Lloegr) ac i wneud argymhellion ar gyfer diwygio. Roedd hyn yn cynnwys asesu sut gellid addasu'r drefn ac ystyried sut beth fyddai trefn atafaelu optimaidd.

52. Ym mis Tachwedd 2022, ar ôl cyfnod helaeth o ymgynghori, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad. Mae'n gwneud 119 o argymhellion: cyfuniad o syniadau uchelgeisiol ar gyfer diwygio a newid y fframwaith deddfwriaethol presennol. Penderfynodd y Llywodraeth flaenorol fwrw ymlaen â'r rhan fwyaf o argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Cafodd y dull hwn ei lywio gan sesiynau ymgysylltu helaeth gyda rhanddeiliaid allweddol ar draws y Llywodraeth, asiantaethau gorfodi'r gyfraith, cymdeithas sifil, y sector preifat a'r byd academaidd. Yn ystod y trafodaethau hyn, clywodd y Llywodraeth flaenorol gan nifer o randdeiliaid y byddai bwrw ymlaen ag argymhellion penodol Comisiwn y Gyfraith ynghylch dosrannu, ailystyried ar i fyny a chydgrynhoi gorchmynion atafaelu lluosog yn creu nifer o faterion gweithredol ac ymarferol. Cymerodd y Llywodraeth flaenorol agwedd bwyllog ac, yng ngoleuni'r pryderon hyn, penderfynodd wedyn beidio â bwrw ymlaen â'r argymhellion hyn ymhellach.

53. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth flaenorol i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar 25 Hydref 2023. Ar 25 Chwefror 2025, cyflwynodd y Llywodraeth hon y Bil Troseddu a

[15] Atafaelu Enillion Troseddu ar ôl Euogfarn (LC 410) (08.11.22)

Phlismona a oedd yn darparu ar gyfer diwygio'r drefn atafaelu yn gyfan gwbl. Roedd argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn sail i ddrafftio'r mesurau hynny.

### Atal Gwyngalchu Arian[16]

54. Yn 2017, comisiynodd y Swyddfa Gartref Gomisiwn y Gyfraith i adolygu agweddau ar y drefn atal gwyngalchu arian yn Rhan 7 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 a threfn ariannu gwrthderfysgaeth debyg a geir yn Rhan 3 o Ddeddf Terfysgaeth 2000, i ystyried a oedd lle i ddiwygio'r "drefn gydsynio". Yn 2019, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad. Mae'n gwneud 19 o argymhellion deddfwriaethol ac anneddfwriaethol sy'n cwmpasu *inter alia*: esemptiadau rhag y troseddau gwyngalchu arian sylweddol; defnyddio amheuaeth fel trothwy ar gyfer rhannu gwybodaeth; canllawiau statudol; a chamfanteisio ar ddata.

55. Croesawodd y Llywodraeth flaenorol argymhellion Comisiwn y Gyfraith; roedd nifer o'r argymhellion eisoes wedi symud ymlaen, rhai drwy'r cymalau deddfwriaethol yn Neddf Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023, ac eraill drwy gyflawni Rhaglen Diwygio SARs.

56. Cyhoeddwyd ymateb y Llywodraeth flaenorol i adroddiad trefn SARs Comisiwn y Gyfraith ar 12 Chwefror 2024.

57. Ym mis Gorffennaf 2025, cododd y Llywodraeth y swm trothwy ariannol ar gyfer dau esemptiad sy'n berthnasol i'r prif droseddau gwyngalchu arian o dan Ddeddf Enillion Troseddau 2002, o £1,000 i £3,000. Y trothwyon hyn yw'r lefel y gellir eithrio busnesau oddi tani rhag cyflawni trosedd gwyngalchu arian pan fyddant naill ai a) yn cyflawni gweithred wrth weithredu cyfrif, neu b) yn gorffen talu am eiddo.

### Anghymhwyster i Bledio[17]

58. Mae'r gyfraith sy'n ymwneud ag anghymhwyster i bledio yn mynd i'r afael â'r hyn a ddylai ddigwydd mewn llysoedd troseddol pan nad oes gan ddiffynnydd ddigon o alluedd i gymryd rhan yn effeithiol yn ei dreial, gan gynnwys deall y cyhuddiadau yn ei erbyn a phenderfynu sut i bledio. Gall diffynyddion fod yn anaddas i bledio am amrywiaeth o resymau, fel cyflwr iechyd meddwl, anabledd dysgu, neu gyflwr niwroamrywiol arall. Nod y gyfraith yw cydbwyso hawliau'r diffynnydd agored i niwed â buddiannau'r rheini y mae trosedd honedig yn effeithio arnynt, a'r angen i amddiffyn y cyhoedd. Fodd bynnag, mae'r gyfraith bresennol yn y maes hwn yn cael ei chymhwyso'n anghyson ac mae wedi dyddio, gan fethu ag ystyried dealltwriaeth feddygol fodern o alluedd.

[16] Atal gwyngalchu arian (LC384) (18.06.19)

[17] Anghymhwyster i Bledio (LC364) (31.10.16)

59. Ar ôl ymgynghoriad eang a gynhaliwyd yn ystod gaeaf 2010/11,[18] cyhoeddodd y Comisiwn ddadansoddiad o'r ymatebion[19] a phapur materion yn 2013,[20] ac adroddiad terfynol a Bil drafft ym mis Ionawr 2016.[21]

60. Cyhoeddwyd ymateb llawn i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ym mis Hydref 2023, gyda'r rhan fwyaf o argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn cael eu derbyn.

**Gwarantau Chwilio[22]**

61. Ym mis Hydref 2020, yn dilyn comisiwn gan y Swyddfa Gartref yn 2017, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adolygiad o ddeddfwriaeth gwarantau chwilio, gan nodi argymhellion i'r Llywodraeth eu hystyried ar newidiadau cynhwysfawr i'r drefn gwarantau chwilio. Nod yr argymhellion oedd symleiddio'r ddeddfwriaeth bresennol, gan gynnwys Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, a symleiddio'r broses gwarantau chwilio a phwerau cysylltiedig.

62. Mewn ymateb i argymhellion Comisiwn y Gyfraith, mae mesurau sylweddol wedi cael eu gwneud, gan gynnwys ceisiadau symlach am warantau electronig a chanllawiau newydd, darpariaethau penodol ar gyfer pwerau mynediad a chwilio gwarantedig i ddod o hyd i weddillion dynol, a mesurau yn y Bil Troseddu a Phlismona ar gyfer data electronig sydd wedi'i storio o bell.

63. Bydd y Llywodraeth hon yn parhau i adolygu deddfwriaeth gwarantau chwilio i sicrhau bod y system yn gweithio'n effeithiol, gyda mesurau diogelu cadarn ar waith.

**Asedau Digidol[23]**

64. Ar 28 Mehefin 2023, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad yn gwneud pedwar argymhelliad i'r Llywodraeth ar sut i gryfhau gallu cyfraith Cymru a Lloegr i ddarparu ar gyfer asedau digidol. Comisiynodd y Llywodraeth flaenorol y gwaith hwn yn 2020 i nodi unrhyw rwystrau rhag cydnabod asedau digidol fel eiddo o dan gyfraith breifat Cymru a Lloegr, ac i gynnig datrysiadau.

65. Dechreuodd Comisiwn y Gyfraith ar ei waith yn 2021 a chyhoeddodd adroddiad ym mis Mehefin 2024 yn nodi argymhellion amrywiol. Roedd y rhain yn cynnwys argymhelliad y dylid cael cadarnhad statudol y gall rhywbeth fod yn wrthrych hawliau eiddo hyd yn oed os nad yw'n dod o fewn y naill gategori neu'r llall o eiddo personol sydd wedi cael eu cydnabod yn draddodiadol: pethau mewn meddiant (pethau

---

[18] (2010) LCCP197

[19] http://www.lawcom.gov.uk/project/unfitness-to-plead/

[20] http://www.lawcom.gov.uk/project/unfitness-to-plead/

[21] (2016) LC364 (dwy gyfrol)

[22] Gwarantau Chwilio (LC 396) (07.10.20)

[23] Asedau Digidol (LC 412) (27.06.23)

ffisegol) neu bethau ar waith (hawliau cyfreithiol, fel dyledion). Daeth y Comisiwn i'r casgliad y gallai tocynnau crypto a mathau eraill o asedau o bosibl ddod o fewn categori pellach o eiddo personol. Ym mis Gorffennaf 2024, ar ôl ymarfer ymgynghori pellach, cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad atodol byr a Bil drafft gyda'r nod o weithredu'r argymhelliad hwn.[24]

66. Cafodd y Bil Eiddo (Asedau Digidol ac ati) ei gyflwyno i'r Senedd o dan y weithdrefn arbennig ar gyfer biliau Comisiwn y Gyfraith ar 11 Medi 2024, a chwblhaodd ei daith ar 19 Tachwedd 2025. Cafodd Gydsyniad Brenhinol ar 2 Rhagfyr 2025.

67. Ail argymhelliad yr adroddiad oedd sefydlu grŵp arbenigol i ddarparu canllawiau nad ydynt yn rhwymo ar reolaeth gyfreithiol a thechnegol ar asedau digidol. Gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder i Dasglu Awdurdodaeth y DU (UKJT), grŵp arbenigol dan gadeiryddiaeth Meistr y Rholiau, fwrw ymlaen â hyn. Mae UKJT yn gwneud cynnydd cyson ar y gwaith hwn.

68. Gwnaeth yr adroddiad ddau argymhelliad pellach, gan gynnwys diwygiadau statudol i egluro sut y gellir defnyddio asedau digidol fel eitemau cyfochrog. Mae'r rhain yn cael eu hystyried gan Drysorlys EF.

69. Darparwyd ymateb llawn y Llywodraeth i'r adroddiad drwy ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig ar 11 Medi 2024.

**Strwythurau Gwrandawiadau Cyfraith Cyflogaeth[25]**

70. Roedd trydedd rhaglen ar ddeg Diwygio'r Gyfraith Comisiwn y Gyfraith yn cynnwys adolygiad o strwythurau gwrandawiadau cyfraith cyflogaeth. Cylch gorchwyl y prosiect oedd adolygu awdurdodaethau'r tribiwnlys cyflogaeth, y Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth a'r llysoedd sifil mewn materion cyflogaeth a gwahaniaethu, a gwneud argymhellion ar gyfer eu diwygio, heb ystyried ailstrwythuro system y Tribiwnlys Cyflogaeth yn sylweddol. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar 28 Ebrill 2020, gan wneud 23 o argymhellion ar gyfer newidiadau i strwythurau'r Tribiwnlys Cyflogaeth.

71. Ymatebodd y Llywodraeth flaenorol i adroddiad Comisiwn y Gyfraith ar Strwythurau Gwrandawiadau Cyfraith Cyflogaeth, gan groesawu'r adroddiad a'r ystyriaeth fanwl y mae'r Comisiwn wedi'i rhoi i'r pwnc pwysig hwn. Yn unol ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, mae'r Llywodraeth hon wedi ymrwymo i gynyddu'r terfyn amser ar gyfer gwneud hawliad cyflogaeth o dri mis i chwe mis.

72. Fel yr addawyd yn y ddogfen, Y Camau Nesaf i Wneud i Waith Dalu, mae mesurau i ymestyn y terfyn amser ar gyfer cyflwyno hawliadau i Dribiwnlysoedd Cyflogaeth yn

[24] Asedau Digidol fel Eiddo Personol (LC416) (29.07.2024)

[25] Strwythurau gwrandawiadau cyfraith cyflogaeth (LC390) (29.04.20)

cael eu cyflawni drwy'r Bil Hawliau Cyflogaeth, drwy ddiwygiad gan y Llywodraeth. Mae rhai terfynau amser mewn is-ddeddfwriaeth, a bydd rheoliadau'n diwygio'r rhain y tu allan i'r Bil. Ar 1 Gorffennaf, cyhoeddodd y Llywodraeth Fap Gweithredu'r Bil Hawliau Cyflogaeth a oedd yn amlinellu'r dyddiad gweithredu arfaethedig, sef mis Hydref 2026, ar gyfer y newid hwn. Bydd hyn yn alinio â gwaith parhaus i wella'r System Datrys Anghydfodau, gan sicrhau parodrwydd hefyd i roi mesurau'r Bil ar waith yn ehangach. Fel rhan o'r Bil Hawliau Cyflogaeth, bydd y Llywodraeth hon hefyd yn gweithredu mesurau diogelu rhag diswyddo am weithredu'n ddiwydiannol.

73. Roedd dau o'r argymhellion yn ymwneud â lleoli barnwyr yn fwy hyblyg. Materion barnwrol yw'r rhain na all y Llywodraeth hon roi sylwadau arnynt, ond mae'r argymhellion hyn wedi cael eu rhannu â'r farnwriaeth i'w hystyried.

### Gwarannau Cyfryngol[26]

74. Ym mis Mehefin 2019, gofynnodd BEIS i Gomisiwn y Gyfraith gynnal "astudiaeth gwmpasu" ar hawliau buddsoddwyr mewn system o warannau cyfryngol. Yn yr oes fodern, pan fydd person yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau neu fondiau, nid yw'n debygol o gael tystysgrif bapur. Yn hytrach, mae'r rhan fwyaf o fuddsoddwyr yn dal gwarannau drwy gofnodion credyd cyfrifiadurol mewn cofrestr o'r enw CREST, drwy gadwyn o gyfryngwyr ariannol. Mae'r system gyfryngol hon wedi gwneud masnachu'n llawer cyflymach, rhatach a mwy cyfleus. Fodd bynnag, mae dal cyfranddaliadau fel hyn yn golygu nad yw enw'r buddsoddwr yn ymddangos ar y gofrestr aelodau ac nad yw ef neu hi yn aelod o'r cwmni. Gall olygu nad oes gan y buddsoddwr fynediad at yr holl hawliau cyfranddalwyr a fyddai ganddo gyda thystysgrif bapur, fel yr hawl i bleidleisio ar benderfyniadau allweddol y cwmni. Mae ansicrwydd hefyd ynghylch yr iawn cyfreithiol sydd ar gael, yn enwedig os bydd cyfryngwr yn y gadwyn yn wynebu anawsterau ariannol.

75. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei astudiaeth gwmpasu ym mis Tachwedd 2020. Roedd hyn yn darparu dadansoddiad o'r gyfraith sy'n sail i warannau cyfryngol, ynghyd â phryderon cyfranogwyr yn y farchnad. Ni wnaeth yr astudiaeth argymhellion ffurfiol ar gyfer diwygio, ond nododd ystod o ddatrysiadau posibl i'r pryderon a nodwyd i ddarparu sail ar gyfer gwaith pellach a thrafodaeth gyda chyfranogwyr yn y farchnad. Roedd y datrysiadau posibl a ystyriwyd yn cynnwys:
    - Ymyriad cyfreithiol wedi'i dargedu i fynd i'r afael â materion penodol, fel creu rhwymedigaeth newydd ar gyfryngwyr i drefnu, ar gais, i fuddsoddwr dderbyn gwybodaeth, mynychu cyfarfodydd a phleidleisio.
    - Newid systemig, fel dileu cyfryngu'n gyfan gwbl, neu gadw cyfryngu ond rhoi opsiwn arall i fuddsoddwyr ddal eu gwarannau'n uniongyrchol ar ffurf electronig, wedi'i

[26] Gwarannau Cyfryngol 13eg Rhaglen (LC377)

moderneiddio. Datrysiadau technolegol fel technoleg cyfriflyfr gwasgaredig.

- Newidiadau deddfwriaethol neu reoleiddiol posibl i gadarnhau y dylid dosbarthu asedau cyfryngwr ansolfent i fuddsoddwyr terfynol ar sail gymesur.

76. Ers cyhoeddi astudiaeth Comisiwn y Gyfraith, roedd dau adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan y Llywodraeth flaenorol wedi gwneud argymhellion pwysig yn ymwneud â'r fframwaith a'r trefniadau ar gyfer dal cyfranddaliadau. Y cyntaf oedd Adolygiad Rhestrau'r DU gan yr Arglwydd Hill o Oareford, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021. Roedd hyn yn cynnwys argymhelliad y dylid ystyried sut y gellir defnyddio technoleg i wella cyfranogiad buddsoddwyr manwerthu mewn camau corfforaethol, a'u hymrwymiad i rôl stiwardiaeth briodol. Yr ail oedd adolygiad Mark Austin o godi cyfalaf eilaidd, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022. Gan ddefnyddio papur cwmpasu Comisiwn y Gyfraith, roedd hyn yn cynnwys galw am ymgyrch i ddigideiddio, gan ddechrau drwy ddileu tystysgrifau cyfranddaliadau papur, ond ymestyn i sicrhau bod yr hawliau sy'n gysylltiedig â chyfranddaliadau, beth bynnag fo'u ffurf, yn llifo at fuddsoddwyr terfynol yn gyflym, yn glir ac yn effeithlon. Galwodd yr adroddiad ar Dasglu Digideiddio i fwrw ymlaen â'r gwaith.

77. Sefydlwyd y Tasglu Digideiddio ym mis Gorffennaf 2022 gyda'r nod o hwyluso'r broses o gael gwared ar gyfranddaliadau sy'n dal i fod ar bapur, ar yr un pryd â gwella'r system bresennol o berchnogaeth gyfranogol o gyfranddaliadau digidol. Cyhoeddodd y Tasglu ei adroddiad terfynol ym mis Gorffennaf 2025. Mae'r adroddiad yn gwneud 16 o argymhellion, ac mae nifer ohonynt yn ymateb i'r opsiynau a nodwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith ac yn bwrw ymlaen â nhw, gan gynnwys:

- Darparu gwasanaeth sylfaenol o hawliau cyfranddalwyr i fuddsoddwyr sy'n dal cyfranddaliadau drwy gyfryngwyr, gan gynnwys yr hawl i bleidleisio (ac i dderbyn cadarnhad bod y bleidlais wedi cael ei chofnodi), mynychu cyfarfodydd y cwmni a chael gwybodaeth am y cwmni.
- Gwella cyfathrebu rhwng cwmnïau a buddsoddwyr drwy'r gadwyn fuddsoddi gyfranogol.
- Ymestyn adran 98 o Ddeddf Cwmnïau 2006 - hawl cyfranddalwyr i wneud cais i'r llys i rwystro cwmni rhag dadrestru - i berchnogion budd terfynol cyfranddaliadau.
- Diwygio adran 90A ac atodlen 10A o Ddeddf Marchnadoedd a Gwasanaethau Ariannol 2000 i roi sicrwydd y gallai perchnogion budd terfynol cyfranddaliadau ddwyn achos yn erbyn cwmni rhestredig am ddatganiad camarweiniol neu hepgor gwybodaeth yn anonest.

78. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn argymhellion yr adroddiad a bydd yn eu gweithredu mewn tri phrif gam, fel a ganlyn:

- Cam 1: Disodli cofrestrau cyfranddaliadau papur presennol â chofrestrau cyfranddaliadau digidol newydd, sydd y tu allan i'r fframwaith gwarannau cyfryngol dros dro.
- Cam 2: Gwneud gwelliannau i'r ffordd y mae cyfranddaliadau digidol yn cael eu dal ar hyn o bryd yn y fframwaith gwarannau cyfryngol.
- Cam 3: Trosglwyddo cyfranddaliadau ar y cofrestrau cyfranddaliadau digidol newydd dros dro i'r fframwaith gwarannau cyfryngol, yn amodol ar ystyried y dull gorau o gyflawni hyn, ac ystyried buddiannau buddsoddwyr agored i niwed a hŷn.

**Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus**[27]

79. Mae camymddwyn mewn swydd gyhoeddus ar hyn o bryd yn drosedd cyfraith gyffredin sydd wedi bodoli ers cannoedd o flynyddoedd ond nad yw wedi'i ddiffinio mewn statud. Y ddedfryd fwyaf y gellir ei rhoi yw carchar am oes. Yn dilyn argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad a gyhoeddwyd yn 2020, mae'r Llywodraeth wrthi'n rhoi newidiadau i'r drosedd hon ar waith yn y Bil Swyddfa Cyhoeddus (Atebolrwydd) a gyflwynwyd ym mis Medi 2025. Fel yr argymhellwyd, disgwylir i'r drosedd cyfraith gyffredin bresennol gael ei diddymu a'i disodli gan ddwy drosedd statudol newydd, sef 'gweithredoedd amhriodol difrifol' a 'torri dyletswydd i atal marwolaeth neu anaf difrifol'.

80. Er y bydd y drosedd cyfraith gyffredin yn cael ei diddymu, mae'r troseddau newydd wedi'u cynllunio i atgynhyrchu'r drosedd cyfraith gyffredin yn fras, ac nid ydynt yn ehangu nac yn newid ei chwmpas. Dim ond i ddeiliaid swyddi cyhoeddus y mae eu rôl yn cynnwys dyletswydd i atal a diogelu'r cyhoedd rhag niwed critigol, fel yr heddlu, diffoddwyr tân neu'r lluoedd arfog, y bydd y drosedd torri dyletswydd yn berthnasol. Mae'n cynnwys ymddygiad lle mae torri'r ddyletswydd honno'n fwriadol neu'n fyrbwyll yn achosi (neu'n cyflwyno risg o achosi) niwed difrifol neu farwolaeth. Mae'r drosedd gweithredoedd difrifol amhriodol yn fwriadol eang - yn debyg i'r gyfraith gyffredin - gan ei bod yn targedu ystod eang o ymddygiad llwgr. Gall hyn gynnwys elw neu golled ariannol, diogelu neu wella enw da unigolyn, neu ddifrod i enw da unigolyn, yn ogystal â manteision neu anfanteision o natur gorfforol a chamddefnyddio pwrpas at ddiben rhywiol.

81. Bydd rhestr bendant o swyddi mewn rolau cyhoeddus yn cyd-fynd â'r troseddau newydd, gan ei gwneud yn glir i bwy maen nhw'n berthnasol, yn ogystal â sut maen nhw'n cael eu cyflawni.

---

[27] Camymddwyn mewn Swydd Gyhoeddus (LC397) (03.12.20)

82. Os caiff ei roi ar waith yn unol â'r bwriad, bydd y drosedd gweithredoedd amhriodol difrifol yn arwain at gosb o hyd at ddeng mlynedd yn y carchar, a'r drosedd torri dyletswydd hyd at 14 mlynedd. Bydd amddiffyniad esgus rhesymol ar gyfer y ddwy drosedd os gellir profi bod y camau a gymerwyd yn rhesymol o dan yr amgylchiadau; ac er mwyn atal ymgyfreitha blinderus, bydd angen cael cydsyniad y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus i fynd ymlaen i'r llys ar gyfer y ddwy drosedd. Bydd y newidiadau hyn yn cael eu rhoi ar waith pan fydd y mesurau wedi clirio'r broses Seneddol a phan fydd y Bil wedi dod i rym, a ddisgwylir ar hyn o bryd yn 2026.

### Cyfraith Etholiadol[28]

83. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith a Chomisiwn y Gyfraith yn yr Alban adroddiad terfynol ar y cyd ar Gyfraith Etholiadol ar 16 Mawrth 2020. Argymhellodd y dylid rhesymoli cyfraith etholiadol yn un fframwaith deddfwriaethol cyson, gyda chyfreithiau etholiadol cyson ar draws pob etholiad (ac eithrio lle mae gwahaniaethau'n angenrheidiol oherwydd, er enghraifft, systemau pleidleisio gwahanol). Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell y dylid moderneiddio'r broses ar gyfer herio etholiadau, ac y dylid symleiddio a diweddaru'r troseddau etholiadol presennol.

84. Ni chafwyd ymateb ffurfiol i'r adroddiad gan y Llywodraeth flaenorol. Nid oedd Deddf Etholiadau 2022 yn cydgrynhoi cyfraith etholiadol yn y ffordd a argymhellwyd gan Gomisiwn y Gyfraith, ond roedd yn mynd i'r afael â nifer o faterion neu argymhellion a godwyd yn yr adroddiad.

85. Mae'r Llywodraeth nawr yn bwriadu cyflwyno mesurau i ddiwygio cyfraith etholiadol fel y nodir yn ymrwymiadau ei maniffesto ac yn ei Strategaeth ar gyfer Etholiadau Modern a Diogel, gan gynnwys nifer o newidiadau technegol i gyfraith etholiadol i wella prosesau a gwydnwch. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â bylchau mewn deddfwriaeth mewn perthynas ag amrywiol brosesau, gan gynnwys pleidleisio drwy'r post ac enwebiadau, safoni ffurflenni fel eu bod yn gyson ar draws polau piniwn a bod llai ohonynt, a newid y cydbwysedd rhwng deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth mewn rhai meysydd i wneud diweddaru'n gyflymach ac yn fwy hyblyg. Wrth ddatblygu'r mesurau hyn, cynhaliodd y Llywodraeth adolygiad strategol o gofrestru ac ymddygiad etholiadol lle'r oedd elfennau o gyfraith etholiadol a'r argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn cael eu hystyried.

### Dirmyg Llys (2): Adroddiadau Llys[29]

86. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad gydag argymhellion ar 26 Mawrth 2014. Roedd yr argymhellion yn cynnwys:

---

[28] Cyfraith Etholiadol (LC389) (SLC256) (16.03.20)

[29] Dirmyg Llys (2): Adroddiadau Llys (LC344) (25.03.2014)

- Cyflwyno cronfa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd ar y rhyngrwyd sy'n rhestru'r gwrandawiadau llys lle mae cyfyngiadau ar waith ar hyn o bryd.
- Creu cronfa ddata gyfyngedig fwy helaeth lle gallai defnyddwyr cofrestredig, am dâl, ddod o hyd i fanylion y cyfyngiad adrodd a gallent gofrestru i gael hysbysiadau e-bost awtomataidd am orchmynion newydd.

87. Croesawodd y Llywodraeth flaenorol yr argymhellion hyn a phenderfynodd y byddai'n ystyried sut gellid bwrw ymlaen â chronfa ddata cyfyngiadau adrodd ar-lein wrth i dechnoleg bresennol gael ei disodli a'i diweddaru fel rhan o Raglen Ddiwygio ehangach GLlTEF.

88. Ym mis Gorffennaf 2022, lansiodd GLlTEF gam cyntaf ei wasanaeth Gwrandawiadau Llys a Thribiwnlysoedd newydd ar GOV.UK, fel rhan o'i Raglen Ddiwygio.

89. Ers mis Ionawr 2024, mae'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd (CaTH) yn parhau i dyfu, gyda gwrandawiadau yn y rhan fwyaf o Lysoedd Sifil a Theulu yn rhanbarthau De-ddwyrain a De-orllewin Lloegr, y Tribiwnlysoedd Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlysoedd (ac eithrio Tribiwnlysoedd Cyflogaeth), y Llysoedd Barn Brenhinol ac Adeilad y Rholiau ac achosion y Weithdrefn Un Ynad yn cael eu cyhoeddi mewn ffordd syml, cyson a hygyrch mewn un lle.

90. Mae'r Tîm Gwasanaeth Cyhoeddiadau a Gwybodaeth yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i nodi gwelliannau i adnodd CaTH er mwyn darparu gwybodaeth well am gyfyngiadau adrodd, ac maent yn gweithio i sicrhau bod rhestrau Llysoedd Ynadon a Llys y Goron ar gael ar y gwasanaeth cyn bo hir.

91. Mae'r gronfa ddata cyfyngiadau adrodd ar-lein yn ei chyfnod datblygu cychwynnol ar hyn o bryd. Mae'r prosiect yn defnyddio seilwaith digidol presennol i greu porth diogel lle gall cynrychiolwyr cyfryngau a defnyddwyr awdurdodedig eraill gael gafael ar ddogfennau perthnasol ar sail hunanwasanaeth.

92. Er bod y system yn dal yn ei dyddiau cynnar, mae'r cynnydd cynnar yn dangos bod y porth ar y trywydd iawn i gael ei gyflwyno'n llawn erbyn 2027. Mae'r fenter hon yn rhan o ymdrechion ehangach i wella tryloywder a hygyrchedd yn y system gyfiawnder gan ddefnyddio'r llwyfan Gwrandawiadau Llysoedd a Thribiwnlysoedd (CaTH).

93. Mae GLlTEF wedi darparu pecyn o ddiwygiadau i gryfhau mynediad i'r cyfryngau a chefnogi cyfiawnder agored mewn llysoedd troseddol. Mae'r prif newidiadau'n cynnwys diweddariadau i Ran 6 y Rheolau Trefniadaeth Droseddol, a ddaeth i rym ar 6 Hydref 2025, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr am gyfyngiadau adrodd yn ôl disgresiwn hysbysu'r cyfryngau. Mae dau lawlyfr cyfryngau newydd ar gyfer Llysoedd

y Goron a llysoedd ynadon yn darparu canllawiau ymarferol, wedi'u hategu gan fframwaith cydymffurfio a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2025 i reoli risg a chynnal safonau proffesiynol. Mae'r gwelliannau hyn yn deillio o ddwy flynedd o gydweithio ar draws timau GLITEF, y Swyddfa Farnwrol, a sefydliadau'r cyfryngau, gan sicrhau dull mwy cyson a thryloyw o adrodd o lysoedd.

94. Mae'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol wedi ystyried dirmyg ymhellach gyda chynrychiolwyr Comisiwn y Gyfraith. Roedd egwyddorion a thrafodaethau allweddol yn dilyn dyfarniad yn *R v Jordan [2024] EWCA Crim 229* yn hollbwysig, ac roedd yr argymhellion terfynol yn alinio â phenderfyniad y Llys Apêl. Ym mis Ebrill 2025, diweddarwyd Rhan 48 (Dirmyg) y Rheolau i adlewyrchu proses well, gohirio achosion a nodiadau atodol. Ym mis Mai 2025, ffurfiwyd gweithgor, gyda'r dasg o alinio'r Rheolau a dirmyg. Pan gyhoeddir Rhan 1 adroddiad y Comisiwn ar ddirmyg, bydd y Pwyllgor yn ystyried ei gynnwys.

## (ii) Argymhellion sy'n aros am benderfyniad y Llywodraeth ar weithredu

### Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus[30]

95. Roedd adroddiad 2011 Comisiwn y Gyfraith ar yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn argymell diwygiadau i wella hygyrchedd, annibyniaeth ac effeithiolrwydd y system ombwdsmon.

96. Mae'r Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaeth Iechyd, sy'n annibynnol ar y Llywodraeth, wedi rhoi mesurau ar waith sy'n ymwneud ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith ynghylch tryloywder a chyhoeddi. Er enghraifft, mae'n cyhoeddi ac yn diweddaru canllawiau ar sut gellir gwneud cwynion; yn anfon copïau o'i adroddiadau a'i ddatganiadau o resymau at achwynwyr; yn cyhoeddi adroddiadau ymchwilio (oni bai fod rhesymau cryf dros beidio â gwneud hynny) ac yn defnyddio'r pŵer i gyhoeddi adroddiadau cyffredinol neu ddogfennau eraill fel y mae'n credu sy'n briodol; ac yn diogelu gwybodaeth bersonol, gan ddatgelu hunaniaeth unigolion gyda'u cydsyniad datganedig yn unig.

97. Mae'r Ombwdsmon Llywodraeth Leol a Gofal Cymdeithasol (LGSCO) a'r Gwasanaeth Ombwdsmon Tai (HOS) hefyd yn annibynnol ar y Llywodraeth. Mae'r LGSCO a'r HOS hefyd yn cyhoeddi ac yn diweddaru canllawiau ac adroddiadau cyffredinol yn rheolaidd, gan gynnwys ar pryd a sut i wneud cwynion a gwybodaeth am sut mae cwynion yn cael eu prosesu. Mae'r ddau sefydliad yn anfon copïau o'u hadroddiadau at achwynwyr, yn cyflwyno'u hadroddiadau a'u cyfrifon blynyddol

[30] Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (LC 329) (14.07.11)

gerbron y Senedd, ac maent wedi cyhoeddi codau ymdrin â chwynion sy'n nodi'r arferion gorau ar gyfer ymdrin â chwynion.

98. Materion i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi a'r Farnwriaeth yw argymhellion ynghylch y Llys Gweinyddol.

99. Mae argymhellion ynghylch Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn faterion datganoledig. Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru adrodd yn flynyddol (o dan Ddeddf Comisiynau'r Gyfraith 1965 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014) ar weithredu cynigion y Comisiwn sy'n ymwneud â materion datganoledig.

100. Bydd y Llywodraeth hon yn ystyried yr achos dros ddiwygio'r ombwdsmon ochr yn ochr â blaenoriaethau polisi a deddfwriaethol eraill.

### Diogelu Data Swyddogol[31]

101. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar Ddiogelu Data Swyddogol ar 1 Medi 2020. Mae'r adroddiad yn nodi argymhellion ar gyfer diwygio'r troseddau ysbïo a datgelu heb awdurdod o dan y Deddfau Cyfrinachau Swyddogol.

102. Ar 20 Rhagfyr 2023 daeth Rhannau 1-3 o Ddeddf Diogelwch Gwladol 2023 i rym. Mae'r Ddeddf, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2023, yn creu troseddau, offer a phwerau newydd ac wedi'u moderneiddio i ymdrin â bygythiadau gan wladwriaethau, gan gynnwys y bygythiad o ysbïo, a chafodd ei llywio gan adroddiad ac argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar Ddeddfau Cyfrinachau Swyddogol 1911, 1920 a 1939.

103. Mewn perthynas ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith mewn perthynas â Deddf Cyfrinachau Swyddogol 1989, mae'r Llywodraeth yn parhau i adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â'r diwygiadau.

### Eiddo, Anghenion a Chytundebau Priodasol[32]

104. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar Eiddo, Anghenion a Chytundebau Priodasol ym mis Chwefror 2014. Mae'r adroddiad yn gwneud argymhellion ar gyfer canllawiau i egluro cyfraith anghenion ariannol wrth ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil a fyddai'n sicrhau bod y llysoedd yn defnyddio'r gyfraith yn gyson ac yn atgyfnerthu arferion gorau barnwrol. Yn ogystal, mae'n argymell bod gwaith yn cael ei wneud i asesu a ellid llunio fformiwla fel cymorth i gyfrifo canlyniadau ariannol, a fyddai'n gofyn am gasglu data empirig. Yn olaf, mae'n argymell cyflwyno cytundebau priodasol cymwys yng Nghymru a Lloegr a fyddai'n gontractau gorfodadwy, gyda nifer o ddarpariaethau a mesurau diogelu cysylltiedig,

[31] Diogelu Data Swyddogol (LC395) (01.09.20)

[32] Eiddo, Anghenion a Chytundebau Priodasol (LC 343) (27.02.2014)

gan alluogi cyplau i wneud trefniadau rhwymol ar gyfer canlyniadau ariannol ysgaru neu ddiddymu.

105. Derbyniodd a gweithredodd y Llywodraeth flaenorol ar yr argymhelliad am ganllawiau. Datblygodd y Cyngor Cyfiawnder Teulu ganllawiau ariannol ar gyfer cyplau sy'n gwahanu ac ymgyfreithwyr heb gynrychiolaeth. Mae tudalen we y Cyngor Cyfiawnder Teulu yn darparu canllawiau, dyddiedig Ebrill 2016. Mae hefyd yn cyhoeddi canllawiau wedi'u hanelu at y farnwriaeth ac ymarferwyr, a chyhoeddwyd yr ail argraffiad ym mis Ebrill 2018. Mae'r elusen gyfreithiol, AdviceNow, hefyd yn cyhoeddi canllawiau ar y pwnc ar gyfer ymgyfreithwyr drostynt eu hunain, gyda chyllid gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

106. Bu'r Llywodraeth flaenorol hefyd yn gweithio gyda Gweithgor Casglu Data (y mae aelodau ohono wedi cynnwys Comisiwn y Gyfraith, y farnwriaeth, GLITEF ac academyddion) i gymryd camau i gasglu data mewn perthynas ag achosion rhwymedïau ariannol. Bu'r Llywodraeth flaenorol yn gweithio gyda'r Gweithgor i greu fersiwn ddiwygiedig o'r ffurflen D81 (datganiad o wybodaeth am amgylchiadau ariannol partïon a ddefnyddiwyd i gefnogi ceisiadau am orchymyn cydsynio mewn achosion rhwymedïau ariannol ar ysgariad), a gyhoeddwyd yn 2022. Byddai'r diwygiadau i ffurflen D81 yn ei galluogi i gael ei defnyddio'n fwy defnyddiol mewn unrhyw ymarfer casglu data yn y dyfodol.

107. Ers hynny, mae Comisiwn y Gyfraith wedi cyhoeddi ei adroddiad cwmpasu ar gyfraith hawliau rhwymedïau ariannol ar ysgariad ym mis Rhagfyr 2024, sy'n cynnwys trafodaeth am ei argymhellion o 2014. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ymgynghori ar y materion a godwyd gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad yn 2024. Bydd y Llywodraeth yn ystyried y mater o gytundebau priodasol wrth iddi baratoi ar gyfer ymgynghori.

**Rhwymedïau Ariannol a Hawliau Etifeddiaeth Cydbreswylwyr**[33]

108. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad "Cydbreswylio: Canlyniadau Ariannol Perthynas yn Chwalu" ym mis Gorffennaf 2007. Roedd yr adroddiad hwn yn argymell creu cynllun statudol sy'n rhoi rhwymedïau ariannol i bartneriaid cymwys sy'n cydbreswylio yn erbyn ei gilydd pan fydd perthynas yn chwalu.

109. Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith, "Hawliadau Diewyllysedd a Darpariaeth Teulu ar Farwolaeth" a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011, hefyd yn cynnwys argymhellion yn ymwneud â phartneriaid sy'n cydbreswylio. Yn benodol, roedd yr adroddiad hwnnw'n argymell rhoi'r un hawl i gydbreswylwyr cymwys â phriod neu bartner sifil ar

[33] Cydbreswylio: Canlyniadau Ariannol Perthynas yn Chwalu (LC 307) (03.07.2007)

ddiewyllysedd, a rhoi mwy o hawliau i bartneriaid sy'n cydbreswylio o dan Ddeddf Etifeddiaeth (Darpariaeth i Deuluoedd a Dibynyddion) 1975.

110. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ym mis Medi 2011 nad oedd yn bwriadu bwrw ymlaen â'r argymhellion yn adroddiad 2007 Comisiwn y Gyfraith yn y Senedd honno (2010-2015) oherwydd diwygiadau mawr sydd eisoes wedi'u cynllunio ar gyfer y system cyfiawnder teuluol, a gyflwynwyd yn 2014. Ym mis Mawrth 2013, gwnaeth y Llywodraeth flaenorol gyhoeddiad tebyg ynghylch yr argymhellion sy'n ymwneud â chydbreswylio yn adroddiad 2011.

111. Gwnaeth y Llywodraeth hon ymrwymiad yn ei maniffesto ar gyfer 2024 i 'gryfhau'r hawliau a'r amddiffyniadau sydd ar gael i fenywod mewn cyplau sy'n cydbreswylio' ac mae wedi nodi, fel y nodir yn adroddiad 2007, mai cyfyngedig iawn yw'r amddiffyniadau presennol ar gyfer cyplau sy'n cydbreswylio. Cadarnhaodd y Llywodraeth hon ym mis Chwefror 2025 y byddai'n cyflwyno papur ymgynghori i feithrin consensws ymysg y cyhoedd ynghylch sut beth ddylai diwygio maes cydbreswylio fod.

### Diwygio'r Gyfraith ar Briodasau[34]

112. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad ar 19 Gorffennaf 2022 yn nodi 57 o argymhellion ar ddiwygiadau i'r gyfraith ar briodasau, yn enwedig sut a ble y gellir eu cynnal.

113. Ar 2 Hydref 2025, cadarnhaodd y Llywodraeth ei bwriad i ddiwygio cyfraith priodasau pan fydd amser seneddol yn caniatáu, gyda'r bwriad o lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar fanylion y diwygiadau ddechrau 2026.

114. Dywedodd y Llywodraeth y byddai dwy nodwedd allweddol yn sail i'r diwygiadau, a argymhellwyd yn adroddiad 2022 Comisiwn y Gyfraith. Yn gyntaf, bydd y fframwaith cyfreithiol yn symud o system sy'n seiliedig ar reoleiddio adeiladau i un sy'n canolbwyntio ar reoleiddio'r gweinyddwr sy'n gyfrifol am y seremoni briodas. Yn ail, bydd yn cyflwyno un set o reolau cyffredinol ar gyfer pob priodas, ac eithrio priodasau Anglicanaidd.

115. Ym mis Hydref 2025, ysgrifennodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, y Farwnes Levitt, at Gomisiwn y Gyfraith yn cadarnhau safbwynt y Llywodraeth ac yn datgan mai'r llythyr oedd ymateb ffurfiol y Llywodraeth i'r adroddiad.

---

[34] Dathlu Priodas: Cyfraith Priodasau Newydd (LC 408) (18.07.2022)

**Diwygio'r Gyfraith ar Dacsis a Gwasanaethau Hurio Preifat**[35]

116. Mae'r gyfraith sy'n rheoli sut mae'r masnachau tacsis a cherbydau hurio preifat (PHV) yn gweithredu yng Nghymru a Lloegr yn hen, yn anghyson ac yn seiliedig ar sut roedd teithwyr yn defnyddio gwasanaethau yn draddodiadol, cyn i'r rhyngrwyd ac apiau ddod i'r amlwg. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad ar 23 Mai 2014, yn argymell diwygiadau a fyddai'n gwneud y gyfraith yn gliriach i'r rheini sy'n gweithio yn y diwydiant tacsis a cherbydau hurio preifat a'u teithwyr.

117. Roedd adroddiad y Comisiwn yn cydnabod gwerth y system dwy haen i ddewis teithwyr: cerbydau hurio preifat - rhaid eu harchebu ymlaen llaw drwy weithredwr trwyddedig; a thacsis - sydd hefyd yn gallu defnyddio safleoedd tacsis neu geisio cael eu hurio ar unwaith. Mae'n gwneud argymhellion i gadw ac atgyfnerthu'r gwahaniaeth. Roedd diogelwch teithwyr yn ganolog i ddiwygiadau'r Comisiwn. Argymhellodd y dylid gosod safonau'n genedlaethol ar gyfer diogelwch y cyhoedd, hygyrchedd ac effaith amgylcheddol er mwyn i deithwyr tacsis a cherbydau hurio preifat allu disgwyl, yn hyderus, lefelau cyson o ddiogelwch ac ansawdd lle bynnag y byddant yn teithio. Rhoddwyd dau o argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar waith drwy Ddeddf Dadreoleiddio 2015.

118. Ers adroddiad Comisiwn y Gyfraith, gwnaeth Deddf Cymru 2017 ddarpariaeth ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros bolisi tacsis a cherbydau hurio preifat i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (a newidiodd ei enw i Senedd Cymru yn 2020); yn dilyn y trosglwyddiad hwn yn 2018, mae hwn bellach yn faes polisi datganoledig ym mhob un o wledydd y DU.

119. Sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Dacsis a Cherbydau Hurio Preifat yn 2017 i ystyried rheoleiddio'r sector o dan y ddeddfwriaeth bresennol, ei effeithiolrwydd ac a yw'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd yn cael eu defnyddio i'r eithaf. Cyflwynodd cadeirydd y grŵp ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2018, a chyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth (DfT) ymateb yn 2019.

120. Yn 2020, cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth ganllawiau statudol a oedd yn nodi amrywiaeth o ofynion a phrosesau y dylai pob awdurdod trwyddedu eu dilyn i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Roedd y pŵer deddfwriaethol a ddefnyddiwyd i gyhoeddi'r canllawiau'n canolbwyntio ar gamau gweithredu i amddiffyn y bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, ond bydd y mesurau diogelu cadarn yn y canllawiau o fudd i bob teithiwr.

[35] Tacsis a Gwasanaethau Hurio Preifat (LC 347) (23.05.2014)

121. Mae Deddf Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Diogelu a Diogelwch ar y Ffyrdd) 2022 a Deddf Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Pobl Anabl) 2022 wedi gwella gweithdrefnau rheoleiddio'r sector ac wedi gwella diogelwch teithwyr anabl.

122. Cyhoeddodd yr Adran Drafnidiaeth Ganllawiau Arfer Gorau wedi'u diweddaru ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat yn Lloegr yn 2023. Mae'r ddogfen yn ymdrin ag ystod eang o faterion trwyddedu a oedd y tu allan i gwmpas y canllawiau statudol.

123. Mewn ymateb i Archwiliad Cenedlaethol y Farwnes Casey ar Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant yn Rhywiol ar Sail Grŵp, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2025, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddeddfu i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr adroddiad. Mae'r Llywodraeth hon yn ystyried yr holl opsiynau - gan gynnwys gweithio y tu allan i'r ardal, safonau cenedlaethol a gorfodi a throsglwyddo trwyddedu i awdurdodau trafnidiaeth lleol - gan geisio'r canlyniadau cyffredinol gorau ar gyfer diogelwch teithwyr.

**Troseddau Casineb**[36]

124. Cyfeiriwyd y prosiect at Gomisiwn y Gyfraith gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad ar 28 Mai 2014. Roedd yr adroddiad hwn yn argymell y canlynol:

(a) Bydd y Cyngor Dedfrydu yn cynhyrchu canllawiau ar y dull o ddedfrydu troseddau sy'n seiliedig ar elyniaeth mewn achosion troseddau casineb.

(b) Bob tro y cymhwysir y darpariaethau dedfrydu ehangach dan adrannau 145 a 146 Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003, y dylid cofnodi hyn ar gofnod Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) y troseddwr.

(c) Dylid cynnal adolygiad llawn o droseddau gwaethygedig, ac y dylid edrych ar y system dedfrydu ehangach i weld a ddylid ei chadw ar ei ffurf bresennol neu ei diwygio. Os bydd y Llywodraeth yn dewis peidio â chynnal adolygiad ehangach, dylid ymestyn y troseddau gwaethygedig i anabledd, cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth drawsryweddol.

(d) Ni ddylid ymestyn troseddau ysgogi casineb ar sail anabledd neu hunaniaeth drawsryweddol. Anaml iawn, os o gwbl, y byddai troseddau newydd o ysgogi casineb ar sail anabledd a hunaniaeth drawsryweddol yn cael eu herlyn, ac felly byddai eu heffaith yn fach iawn.

---

**36** Troseddau Casineb: A Ddylid Ymestyn y Troseddau Cyfredol? (MPD 348) (28.05.14)

125. Nid oedd y Llywodraeth flaenorol wedi ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad hwn, ond roedd yn derbyn argymhelliad Comisiwn y Gyfraith i gynnal adolygiad llawn. O ganlyniad, ym mis Hydref 2018, gofynnodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref i Gomisiwn y Gyfraith adolygu digonolrwydd a chydraddoldeb y warchodaeth a gynigir gan y gyfraith sy'n ymwneud â throseddau casineb, a gwneud argymhellion ar gyfer eu diwygio.

126. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar droseddau casineb ar 7 Rhagfyr 2021[37], gan wneud nifer o argymhellion ar gyfer diwygio'r cyfreithiau troseddu yng Nghymru a Lloegr.

127. Cyhoeddodd y Llywodraeth flaenorol ymateb i Argymhelliad 8 adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn 2023, gan dderbyn ei argymhelliad na ddylid ychwanegu rhyw neu rywedd fel nodwedd warchodedig at ddibenion troseddau gwaethygedig a dedfrydu llymach. Nid oedd y Llywodraeth flaenorol wedi ymateb i'r 33 argymhelliad arall a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith.

128. Ar hyn o bryd mae'r Llywodraeth hon yn ystyried pob un o'r 34 o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith.

### Symleiddio Cyfraith Trosedd: Herwgipio a Throseddau Cysylltiedig[38]

129. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar herwgipio a throseddau cysylltiedig ar 20 Tachwedd 2014. Roedd yr adroddiad yn argymell creu dwy drosedd statudol benodol i ddisodli'r rhai cyfraith gyffredin presennol, sef:

- bod trosedd statudol newydd o garcharu anghyfreithlon yn cymryd lle camgarcharu (label y mae Comisiwn y Gyfraith yn credu sy'n cyfleu natur y drosedd yn well). Byddai elfennau'r drosedd newydd yn dilyn y gyfraith gyffredin bresennol yn agos; a
- bydd trosedd herwgipio statudol newydd yn cael ei chreu. Byddai hon ychydig yn gulach ac yn fwy penodol na'r drosedd cyfraith gyffredin bresennol, a byddai ganddi berthynas gliriach â'r drosedd o garcharu anghyfreithlon.

130. Yn ogystal, argymhellodd yr adroddiad newidiadau i'r troseddau dan adrannau 1 a 2 Deddf Herwgydio Plant 1984. Mae'r rhain yn ceisio:

- cynyddu uchafswm y dedfrydau ar gyfer y troseddau hyn o 7 i 14 mlynedd o garchar, er mwyn osgoi'r hyn a ystyriwyd yn anghysondeb annymunol rhwng yr achosion mwyaf difrifol o'r troseddau hyn a throseddau herwgipio o lefel gymharol o ddifrifoldeb; ac

[37] Cyfreithiau Troseddau Casineb: Adroddiad Terfynol (LC 402) (7.12.2021)

**[38]** Symleiddio Cyfraith Trosedd: Herwgipio a Throseddau Cysylltiedig (LC 355) (20.11.2014)

- ehangu'r drosedd o dan adran 1 i gynnwys achosion o gadw plentyn ar gam dramor, yn groes i'r caniatâd a roddwyd gan riant arall (neu berson cysylltiedig arall) neu'r llys. Byddai'r estyniad hwn yn cau bwlch yn y gyfraith a amlygwyd yn achos *R (Nicolaou) v Llys Ynadon Redbridge.*

131. Nid yw'r Llywodraeth hon wedi ymateb yn ffurfiol eto i'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn bwrw ymlaen â diwygiad i'r drosedd yn adran 1 o Ddeddf Herwgydio Plant 1984 - drwy'r Bil Troseddu a Phlismona - i gwmpasu achosion lle mae rhiant yn cadw plentyn dramor ar gam.

**Troseddau yn Erbyn y Person - Moderneiddio'r Gyfraith ar Drais**[39]

132. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad "Diwygio troseddau yn erbyn y person" ar 3 Tachwedd 2015, yn dilyn ymarfer cwmpasu yr oedd y Llywodraeth flaenorol wedi gofyn i'r Comisiwn ymgymryd ag ef fel rhan o'i unfed raglen ddiwygio ar ddeg. Mae'r adroddiad hefyd yn defnyddio gwaith cynharach a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith ac eraill yn y maes hwn ers y 1980[au], a oedd wedi arwain at Fesur drafft ym 1998 i ddiwygio Deddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861. Ni fwriwyd ymlaen â'r Mesur drafft erioed oherwydd blaenoriaethau eraill y Llywodraeth bryd hynny.

133. Mae'r adroddiad yn ymdrin â'r rhan fwyaf o'r troseddau sy'n bodoli yn Neddf 1861, y troseddau cyfraith gyffredin o ymosod a churo, a'r drosedd o ymosod ar gwnstabl (a. 89(1) Deddf yr Heddlu 1996). Llywiwyd yr adroddiad gan yr ymgynghoriad manwl a gynhaliwyd gan y Comisiwn rhwng Tachwedd 2014 a Chwefror 2015 ac mae'n argymell bod angen deddfwriaeth wedi'i diweddaru i fynd i'r afael â throseddau treisgar yn fwy effeithiol, a gwneud gwell defnydd o amser y llys.

134. Mae argymhellion yr adroddiad yn cynnwys:
    - disodli'r troseddau sydd o fewn cwmpas Deddf 1861 â statud modern, sy'n cynnwys system glir o droseddau sy'n achosi anafiadau;
    - creu trosedd newydd o "ymosodiad gwaethygedig" i bontio'r bwlch rhwng ymosodiad cyffredin a'r drosedd fwy difrifol o ymosodiad sy'n achosi gwir niwed corfforol (ABH), fel trosedd ddiannod gyda dedfryd o 12 mis ar y mwyaf. Amcangyfrif gorau'r Comisiwn o'r arbedion gros o'r argymhelliad hwn ar ei ben ei hun yw tua £12.47 miliwn y flwyddyn; ac

---

[39] Troseddau yn erbyn y person - moderneiddio'r gyfraith ar drais (LC 361) (03.11.2015)

- ymestyn y drosedd o 'fygythiadau i ladd' i gynnwys 'bygythiadau i achosi anaf difrifol' a 'bygythiadau i dreisio'.[40]

135. Nid yw'r Llywodraeth hon wedi ymateb yn ffurfiol eto i'r argymhellion a nodir yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn ceisio diddymu adrannau 22, 23 a 25 o Ddeddf 1861, a disodli adran 24 ag un newydd, sef trosedd yn ymwneud â gweinyddu sylweddau niweidiol (gan gynnwys sbeicio). Mae'r newid hwn yn cael ei ddatblygu drwy'r Bil Troseddu a Phlismona sydd gerbron y Senedd ar hyn o bryd.

### Awdurdodaeth yr Uchel Lys mewn perthynas ag Achosion Troseddol[41]

136. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith adroddiad a bil drafft ar 27 Gorffennaf 2010, a bil drafft yn gwneud argymhellion yn egluro'r cyfyngiadau[42] ar argaeledd adolygiad barnwrol o benderfyniadau mewn treial ar dditiad, ac yn cynnig diwygiadau i'r broses apelio. Ym mis Gorffennaf 2022, comisiynodd y Llywodraeth flaenorol Gomisiwn y Gyfraith i gynnal adolygiad eang o'n system apeliadau i sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r Llywodraeth hon yn disgwyl derbyn adroddiad terfynol yr adolygiad yn 2026 a bydd yn ystyried yr argymhellion yn ofalus.

137. Ar ôl ystyried argymhellion Syr Brian Leveson yn ofalus ar apeliadau o'r Llys Ynadon yn Rhan 1 ei Adolygiad Annibynnol o'r Llysoedd Troseddol (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025), mae'r Llywodraeth wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r rhain a bydd yn cyflwyno deddfwriaeth i wneud hynny pan fydd amser seneddol yn caniatáu.

### Terfynu Tenantiaethau oherwydd Diffygdalu Tenant[43]

138. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith yr adroddiad hwn yn 2006. Mae'n cynnwys argymhellion i ddiwygio'r modd y gall landlord derfynu tenantiaeth fasnachol neu breswyl cyfnod penodol os nad yw'r tenant wedi cydymffurfio â'i rwymedigaethau.

139. Mae hwn yn fater pwysig i lawer o landlordiaid a thenantiaid eiddo preswyl a masnachol. O ran tenantiaethau masnachol, mae'r gyfraith bresennol yn anodd ei defnyddio, yn enwedig i'r person lleyg a'r ymarferydd diofal. Nid yw'n cefnogi setliad wedi'i negodi ac nid yw'n darparu llawer o amddiffyniad i forgeisai a phridiannwyr.

---

[40] Yn ogystal, argymhellodd Comisiwn y Gyfraith drosedd o anfon cyfathrebiad yn bygwth achosi niwed difrifol, yn ei adroddiad ar Foderneiddio Troseddau Cyfathrebu. Rhoddwyd yr argymhelliad hwn ar waith yn adran 181 o Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2024, sy'n troseddoli achosion lle mae person yn anfon neges sy'n cyfleu bygythiad o farwolaeth, anaf difrifol, trais rhywiol, ymosodiad drwy dreiddio, neu golled ariannol ddifrifol, ac yn bwriadu y bydd rhywun sy'n dod ar draws y neges yn ofni y bydd y bygythiad yn cael ei gyflawni (neu'n ddi-hid o ran hynny).

[41] Awdurdodaeth yr Uchel Lys mewn Achosion Troseddol (LC324) (27.07.2010)

[42] (2010) LC324

[43] Terfynu Tenantiaethau oherwydd Diffygdalu Tenant (LC303) (31.10.06)

140. Ym mis Mawrth 2019, argymhellodd y Pwyllgor Dethol Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol y dylai'r Llywodraeth weithredu argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mewn ymateb, gofynnodd y Llywodraeth flaenorol i Gomisiwn y Gyfraith ddiweddaru ei adroddiad. Mae'r Comisiwn wedi darparu opsiynau posibl a diweddariadau i waith y Comisiwn i'w hystyried i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG). Bydd newidiadau i fforffediad yn gofyn am gydbwysedd gofalus rhwng hawliau a chyfrifoldebau landlordiaid a lesddeiliaid.

141. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i gynnwys darpariaethau yn y Bil Diwygio Lesddaliadau a Chyfunddaliadau drafft sydd ar y gweill i ddileu'r bygythiad anghymesur a didostur o fforffediad fel ffordd o sicrhau cydymffurfiaeth â chytundeb prydles breswyl. Bydd fforffedu yn dal i fod ar gael mewn trefniadau prydlesu masnachol lle mae'r broses a'r nodau'n wahanol. Ar hyn o bryd nid oes gan y Llywodraeth unrhyw gynlluniau i fwrw ymlaen â'r weithdrefn terfynu diannod a gynigir gan Gomisiwn y Gyfraith.

### Benthyg Croth[44]

142. Mae'r Llywodraeth yn cefnogi trefniadau benthyg croth fel rhan o opsiynau beichiogi â chymorth, i helpu pobl sy'n ei chael hi'n anodd dechrau eu teulu eu hunain.

143. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi ymgynghori'n eang ar y pwnc hwn, sy'n cynhyrchu amrywiaeth eang o safbwyntiau, gan gyhoeddi ei adroddiad terfynol, *Adeiladu Teuluoedd Drwy Drefniadau Benthyg Croth: Cyfraith Newydd,* ar 29 Mawrth 2023.

144. Mae adroddiad a deddfwriaeth ddrafft Comisiwn y Gyfraith yn amlinellu trefn reoleiddio newydd ar gyfer trefniadau benthyg croth sy'n cynnig eglurder, mesurau diogelu a chefnogaeth - i'r plentyn, y fam fenthyg a'r rhieni a fydd yn magu'r plentyn. Mae'n cynnwys llwybr newydd at fod yn rhieni cyfreithiol, lle byddai darpar rieni'n dod yn rhieni i'r plentyn o'i enedigaeth, yn hytrach na chael gorchymyn rhieni ar ôl i'r plentyn gael ei eni. Byddai hyn yn amodol ar hawl y fam fenthyg i dynnu ei chaniatâd yn ôl.

145. Byddai'r llwybr newydd yn cael ei oruchwylio a'i gefnogi gan Sefydliadau Benthyg Croth Rheoledig (RSOs) nid-er-elw, a fyddai yn eu tro'n cael eu rheoleiddio gan yr Awdurdod Ffrwythloni ac Embryoleg Dynol (HFEA). O dan y llwybr newydd, ac am y tro cyntaf, byddai gwiriadau a mesurau diogelu'n cael eu cynnal cyn ymrwymo i'r trefniant benthyg croth a chyn i'r plentyn gael ei genhedlu.

[44] Adeiladu teuluoedd drwy drefniadau benthyg croth: cyfraith newydd (LC 411) (28.03.23)

146. Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyflwyno cynigion deddfwriaethol Comisiwn y Gyfraith ar hyn o bryd, oherwydd yr amser cyfyngedig sydd ar gael i gyflwyno deddfwriaeth newydd. Fodd bynnag, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ymateb fel y bydd amser a chapasiti yn caniatáu, a bydd yn ystyried y mater hwn yn y dyfodol.

### Moderneiddio Cyfraith Ewyllysiau[45]

147. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad Moderneiddio Cyfraith Ewyllysiau[46] ym mis Mai 2025. Gwnaeth yr adroddiad ystod eang o argymhellion i foderneiddio'r gyfraith sy'n rheoli gwneud ewyllysiau, a'u gwneud yn addas ar gyfer yr oes fodern. Mae llawer o'r gyfraith bresennol yn dyddio'n ôl i'r 19eg Ganrif, ac mae'r adroddiad yn archwilio pynciau megis a ddylid caniatáu ewyllysiau electronig. Ochr yn ochr â'r adroddiad cafwyd Bil drafft a oedd yn adlewyrchu argymhellion yr adroddiad, yn ogystal â disodli Deddf Ewyllysiau 1837.

148. Cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb cychwynnol i'r adroddiad ym mis Mai 2025 a chroesawodd adroddiad Comisiwn y Gyfraith. Yn ei datganiad dywedodd y Llywodraeth fod y diwygiadau a gynigir yn sylweddol ac yn eang eu cwmpas a'u bod yn haeddu ystyriaeth fanwl. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y gyfraith bresennol wedi dyddio, ond yr egwyddor arweiniol wrth ddiwygio fydd sicrhau nad yw'n peryglu rhyddid neu ddiogelwch presennol.

149. Bydd y Llywodraeth yn gwneud cyhoeddiadau pellach maes o law, ar ôl iddi roi'r ystyriaeth fanwl y mae'n ei haeddu i'r adroddiad.

### Tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol[47]

150. Yn 2021, gofynnodd y Llywodraeth flaenorol i Gomisiwn y Gyfraith archwilio proses y treial ac ystyried y gyfraith, y canllawiau a'r ymarfer sy'n ymwneud â defnyddio tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol. Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol ar dystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol, a oedd yn ceisio mynd i'r afael â sut mae mythau a chamsyniadau am drais rhywiol yn treiddio drwy broses y treial ac yn dylanwadu ar drafodaethau rheithwyr. Gwnaeth yr adroddiad hwn 72 o argymhellion ar gyfer diwygiadau i wella'r ddealltwriaeth o gydsyniad a niwed rhywiol, gwella'r ffordd yr ymdrinnir ag achwynwyr, a sicrhau bod diffynyddion yn cael treial teg. Mae'r rhan fwyaf o'r argymhellion ar gyfer y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae'r gweddill ar gyfer cyrff ac adrannau eraill, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, y Coleg Barnwrol a Bwrdd Safonau'r Bar.

---

**45** Moderneiddio Cyfraith Ewyllysiau (LC 419) (15.05.2025)

46 https://lawcom.gov.uk/project/wills/

**47** Tystiolaeth mewn erlyniadau troseddau rhywiol (LC 420) (21.07.2025)

151. Ym mis Rhagfyr 2025, cyhoeddodd y Llywodraeth y bydd yn bwrw ymlaen â deddfwriaeth mewn sawl maes yr ymgynghorwyd arnynt gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad, mewn pecyn o fesurau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau nad yw dioddefwyr trais rhywiol yn cael eu tanseilio'n annheg mwyach gan dystiolaeth yn y llys. Fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad hwnnw, bydd y newidiadau hyn yn creu trothwy derbynioldeb cliriach a mwy effeithiol fel bydd ymddygiad rhywiol blaenorol dioddefwr, honiadau blaenorol o ymosodiad rhywiol, neu hawliadau digolledu dim ond yn cael eu defnyddio fel tystiolaeth o blaid y cyhuddedig os yw hynny'n gwbl angenrheidiol.

152. Ymgynghorodd Comisiwn y Gyfraith hefyd ar dderbynioldeb tystiolaeth o gymeriad drwg. Er nad oeddent yn argymell gwneud newidiadau ar y mater hwn, bydd y Llywodraeth hefyd yn cyflwyno deddfwriaeth i egluro y gellir dangos euogfarnau blaenorol o gam-drin domestig - o unrhyw fath, ac yn erbyn unrhyw ddioddefwr - i'r llys i ddangos tueddiad o droseddu pellach - ni waeth beth fo'r drosedd benodol a gyflawnwyd.

153. Bydd y Llywodraeth hefyd yn bwrw ymlaen â nifer o'r argymhellion a wnaethant ynghylch defnyddio mesurau arbennig. Mae hyn yn cynnwys ffurfioli'r defnydd o gymdeithion fel mesur arbennig i helpu tystion i roi eu tystiolaeth orau, egluro pryd y gall y llys wahardd pobl o'r oriel gyhoeddus i wella ansawdd tystiolaeth y tyst, a nodi'n glir pryd y gellir defnyddio sgriniau i rwystro'r dioddefwr rhag gweld y diffynnydd.

154. Fel y nodir ym maniffesto'r Llywodraeth, mae hefyd yn bwriadu derbyn argymhellion ar gyflwyno cyngor cyfreithiol annibynnol am ddim i ddioddefwyr trais rhywiol sy'n oedolion.

155. Mae Comisiwn y Gyfraith wedi argymell newidiadau amrywiol nad yw'r Llywodraeth hon yn dymuno mynd ar eu trywydd ar hyn o bryd. Er enghraifft, er bod y Llywodraeth yn dal wedi ymrwymo i gyflwyno'r ymrwymiad yn ei maniffesto i gyflwyno cyngor cyfreithiol annibynnol am ddim i ddioddefwyr trais rhywiol sy'n oedolion, nid yw'n bwriadu mynd ar drywydd yr argymhelliad i ddarparu cynrychiolaeth i ddioddefwyr, gan eu gwneud yn barti uniongyrchol mewn achosion yn y llys neu yn ystod apeliadau. Nid yw'r Llywodraeth chwaith yn bwriadu bwrw ymlaen ag argymhellion ar Ddeunydd Trydydd Parti, gan fod y Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion eisoes wedi cyflwyno newid deddfwriaethol. Mae'r ddeddfwriaeth newydd hon yn creu mesurau diogelu arbennig ar gyfer cofnodion cwnsela dioddefwyr, gan adlewyrchu natur sensitif iawn y cofnodion hyn. O dan y dyletswyddau newydd hyn, dim ond pan fydd y deunydd yn debygol o fod â gwerth tystiolaethol sylweddol i'r trywydd ymholi rhesymol sy'n cael ei ddilyn y bydd ceisiadau am y cofnodion mwyaf personol hyn yn cael eu gwneud. Ar ben hynny, ni fydd yn cyflwyno hawl dybiedig i fesurau arbennig ar gyfer achwynwyr troseddau

rhywiol ar hyn o bryd. Rhaid ystyried anghenion dioddefwyr yn ofalus i sicrhau bod y mesurau arbennig a ddefnyddir yn eu galluogi i roi eu tystiolaeth orau, ac mae hawl gyffredinol yn cynnwys risg o fod yn ddull “un ateb i bawb”.

**Gofal Cymdeithasol i Blant Anabl**[48]

156. Gofynnodd yr Adran Addysg i Gomisiwn y Gyfraith adolygu’r gyfraith ar ofal cymdeithasol i blant anabl yn Lloegr. Cododd yr adolygiad o argymhelliad a wnaed gan Adolygiad Annibynnol o Ofal Cymdeithasol Plant 2022, sy’n sail i gynlluniau’r Llywodraeth ar gyfer diwygio gofal cymdeithasol plant.

157. Ar 16 Medi 2025, cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei adroddiad terfynol sy’n nodi ei argymhellion yn llawn.

158. Mae’r Llywodraeth yn ystyried yr argymhellion a nodir yn yr adroddiad ond nid yw wedi ymateb yn ffurfiol eto. Bydd yn darparu ymateb interim o fewn 6 mis i gyhoeddi’r adroddiad, ac ymateb llawn o fewn blwyddyn.

**Dirmyg Llys: Adroddiad (Rhan 1) ar Atebolrwydd**[49]

159. Mae’r Llywodraeth wedi gofyn i Gomisiwn y Gyfraith adolygu’r gyfraith ar ddirmyg llys ac ystyried ei diwygio i wella effeithiolrwydd, cysondeb a chydlyniad.

160. Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ran 1 yr adroddiad ar Ddirmyg Llys: Adroddiad (Rhan 1) ar Atebolrwydd ar 18 Tachwedd 2025. Mae Rhan 1 yr adroddiad yn cynnwys argymhellion ar gyfer diwygio’r gyfraith ar faterion atebolrwydd am ddirmyg a rôl y Twrnai Cyffredinol mewn achosion dirmyg.

161. Mae'r Llywodraeth yn ystyried yr argymhellion.

---

**48** Gofal Cymdeithasol i Blant Anabl (LC 422) (15.09.2025)

**49** Dirmyg Llys: Adroddiad (Rhan 1) ar Atebolrwydd (LC 423) (17.11.2025)

## (iii) Rhestr o Brosiectau Diwygio lle mae argymhellion yn aros am benderfyniad y Llywodraeth ar weithredu a lle mae statws y prosiectau wedi aros yr un fath

Mae'r canlynol yn rhestr o brosiectau diwygio lle nad yw'r Llywodraeth wedi gwneud penderfyniad eto ar weithredu rhai neu'r cyfan o'r argymhellion. O ganlyniad, mae'r sefyllfa o ran y prosiectau hyn yr un fath ar gyfer y flwyddyn adrodd hon ag yr oedd yn y flwyddyn adrodd flaenorol. Fodd bynnag, mae'r prosiectau hyn yn dal i gael eu hystyried ar gyfer eu gweithredu.

Gweler adroddiadau Gweithredu blaenorol yr Arglwydd Ganghellor a gyhoeddwyd, i gael rhagor o fanylion am gefndir ac argymhellion y prosiectau hyn a'r cynlluniau ar gyfer delio â'r cynigion.

**Hawl i Olau**[50]
**Symleiddio Cyfraith Trosedd: Niwsans Cyhoeddus a Gweddusrwydd Cyhoeddus sy'n Digio**[51]
**Datgeliadau Cofnodion Troseddol**[52]
**Gwneud i Dir Weithio: Hawddfreintiau, Cyfamodau a *Profits à Prendre***[53]

50 Hawl i Olau (LC356) (04.12.14)

**51** Symleiddio Cyfraith Trosedd: Niwsans Cyhoeddus a Gweddusrwydd Cyhoeddus sy'n Digio (LC 358) (25.06.2015)

52 Datgeliadau Cofnodion Troseddol: Troseddau An-Hidladwy (LC371) (01.02.17)

**53** Gwneud i Dir Weithio: Hawddfreintiau, Cyfamodau a *Profits à Prendre* (LC 327) (08.06.2011)

# Penderfyniadau a wnaed i beidio â gweithredu

162. Dim.

E03526042

978-1-5286-6180-5